# Dinas a Sir Abertawe

# Adolygiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2013/14 (Y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2014)

# Adroddiad

**Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2013/14**

## 1. Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2013-14. Dyma ein trydydd adolygiad dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus newydd ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am:

- Adolygiad o gynnydd ein Hamcanion Cydraddoldeb
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth cyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'n dyletswyddau deddfwriaethol.

## 2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Cynhaliwyd adolygiad y flwyddyn gyntaf yn ystod mis Mai 2014 a darparodd pob adran fanylion am ei chynnydd. Ceir yr holl wybodaeth hon yn Atodiad 1. O ran nifer bach y camau gweithredu na ddatblygodd yn 2013-14, mae swyddogion wedi darparu manylion ac wedi diweddaru terfynau amser lle bo'n briodol (yn unol â'r rheoliadau). Lle bu angen newid neu ddatblygu camau gweithredu mewn ffyrdd gwahanol, amlygir hyn trwy gydol y cynllun gweithredu.

## 3. Gwybodaeth am gydraddoldeb

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth am gydraddoldeb a gasglwyd yn ystod 2011-12, ac rydym wedi ychwanegu ati trwy lawer o'r gweithgareddau y sonnir amdanynt trwy gydol yr adroddiad hwn. Yn ogystal â hyn:

- Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC); mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEC.
- Cwblhawyd asesiad o anghenion er mwyn cyfeirio ein Cynllun Integredig Sengl cyntaf – Cynllun Un Abertawe: http://www.abertawe.gov.uk/sna
- Casglwyd gwybodaeth y llynedd am gydraddoldeb i gyfeirio seminar ar y cyd rhwng cydweithwyr yn yr Adran Addysg, y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – i archwilio'r cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb a thlodi. Mae gwaith gyda'r EHRC wedi parhau tan 2013 gan ystyried y data a materion datblygol ymhellach.
- Cynhaliwyd Uwch-Arolwg Plant a Phobl Ifanc ar draws ysgolion uwchradd yn Abertawe yn nhymor haf 2013 i geisio barn pobl ifanc am bethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg wedi bwydo i mewn i gynllunio gwasanaethau a datblygiadau ac yn helpu i ddangos y gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Cynhelir yr ail arolwg yn nhymor haf 2014 a chaiff y canlyniadau eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol i fesur y cynnydd ers hynny.

- Mae cydweithwyr yn y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a'n data corfforaethol, yn arbennig trwy ganlyniadau cyfrifiad 2011 sy'n dod i'r amlwg. Darperir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 (Amcan Cydraddoldeb 2).

**4. Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant**
Gweler Atodiad 2 am yr wybodaeth hon.

**5. Gwybodaeth ychwanegol**
Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn ystod 2013-14.

5.1.Pwyllgor Cydraddoldeb
Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb ym mis Mai 2012. Mae'r pwyllgor, y mae pob aelod ohono'n gynghorydd, yn cwrdd bob mis a chwblhaodd ei ail adolygiad blynyddol ym mis Ebrill 2014.

Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2013 wedi canolbwyntio ar ymweliadau a chyflwyniadau adrannol, er mwyn dysgu mwy am arferion cydraddoldeb ‘ar waith’. Mae'r cynllun gwaith eleni wedi cynnwys:

- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb –
    - Protocol newydd ar gyfer swyddogion ac aelodau
    - AEC ar waith – cyflwyniad a gweithdy
- Gwybodaeth o’r cyfrifiad
- Cyflwyniadau a/neu ymweliadau adrannol gan:
    - Diwylliant, Chwaraeon, Hamdden a Thwristiaeth
    - Tai a Diogelu'r Cyhoedd
    - Gwasanaethau Cymdeithasol
    - Addysg
    - Tlodi ac Atal.

Am fwy o wybodaeth ac i weld cofnodion cyfarfodydd y pwyllgor, ewch i http://democracy.swansea.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=152&Year=0&LLL=0.

5.2 Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb
Mae'r hyrwyddwyr yn ymdrin â holl nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb (yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin yn y cartref) a chânt eu cefnogi gan aelodau'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a chydweithwyr o adrannau eraill lle bo'n briodol.

Nod yr Aelodau Hyrwyddo yw rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i unrhyw unigolyn neu bwyllgor.

Mae Aelodau Hyrwyddo'n sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau a phenderfyniadau'r cyngor. Maent yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cydraddoldebau. Maent hefyd yn

derbyn gwybodaeth gan sefydliadau allanol megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae'r Aelodau Hyrwyddo'n cwrdd bob tri mis ac yn derbyn cefnogaeth swyddog dynodedig gan y Tîm Mynediad i Wasanaethau. Mae themâu'r cyfarfodydd eleni wedi cynnwys:

- Cydlyniad Cymunedol (gan gynnwys cynnig i gynnwys hwn fel rhan o rôl gyffredinol Aelodau Hyrwyddo)
- Arddangosiad Sign Translate yn y Ganolfan Gyswllt (fel rhan o beilot a gynhaliwyd i alluogi cyfieithu ar y pryd trwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL))
- Cynigion cyllidebol mewn perthynas â materion cydraddoldeb.

Am fwy o fanylion, ewch i
http://democracy.swansea.gov.uk/mgListOtherPosts.aspx?bcr=1&LLL=0

5.3 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Rydym wedi gwneud mwy o waith i wella'n proses AEC eleni. Mae gwaith bellach wedi dechrau ar ehangu'r broses i gynnwys gofalwyr yn ogystal â rhoi mwy o bwyslais ar dlodi, Cydlyniad Cymunedol a'r iaith Gymraeg. Rydym hefyd wedi diweddaru ein harweiniad i ystyried materion rhyng-genedlaethol a dementia. Ar hyn o bryd, mae gwaith yn cael ei wneud i integreiddio'r CCUHP i'r broses hefyd – mae'r gwaith yn cael ei ddatblygu o hyd a disgwylir i'r cyfnod peilot ddechrau yn haf 2014. Fel arfer, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod y broses yn parhau'n hwylus i ddefnyddwyr, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ar draws y sefydliad.

Rydym wedi cyflwyno protocol Cydraddoldeb a Chynnwys i sicrhau y caiff AEC eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor. Daeth hwn i rym ym mis Mehefin 2013 ac mae wedi profi'n ddefnyddiol iawn wrth sicrhau y caiff materion cydraddoldeb eu hystyried ac yr ymdrinnir â hwy yn ôl yr angen.

Mae pob adroddiad AEC sydd wedi'i gwblhau yn parhau i gael ei gyhoeddi yn www.abertawe.gov.uk/eia ac (fel ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol) roedd cyllideb y cyngor ar gyfer 2013/14 yn destun y broses AEC.

5.4 Ymgynghori a Chynnwys

Mae ein Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys a rhai o'r dulliau a ddefnyddir gan y cyngor i'w gweld ar http://www.swansea.gov.uk/consultation. Darperir diweddariad ychwanegol yn Atodiad 1 – gweler Amcan Cydraddoldeb 1.

Yn dilyn gwaith y llynedd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

➢ Fforwm LGBT

Mae'r cyngor yn gwerthfawrogi cymuned lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) Abertawe'n fawr ac mae gwaith yn parhau gyda

sefydliadau partneriaeth i gefnogi mentrau i herio rhagfarn a gwahaniaethu a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfraniad cadarnhaol dinasyddion LGBT at Ddinas a Sir Abertawe.

Dechreuodd Fforwm LGBT Bae Abertawe ym mis Chwefror 2012 ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth. Rheolir y fforwm gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac mae ei haelodau'n cynnwys gweithwyr a gwirfoddolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli diddordebau dinasyddion LGBT.

Mae'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys:
- Stonewall Cymru
- Bi Cymru
- Balchder Abertawe
- Cefnogi Dioddefwyr
- Age Cymru
- Trawsrywiol yng Nghymru
- Tawe Butterflies
- Ymddiriedolaeth Terrence Higgins
- Cymdeithas LGBT Prifysgol Abertawe
- Prosiect Undod LGBT Abertawe

yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus megis y DVLA, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r fforwm wedi cefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau megis Pefr Abertawe, Diwrnod IDAHO, Mis Hanes LGBT, Balchder Abertawe a Diwrnod Deu-welededd. Dathlodd Dinas a Sir Abertawe bob achlysur ymhellach trwy chwifio'r Faner Enfys y tu allan i adeilad y Ganolfan Ddinesig. Cafodd baner pobl drawsryweddol ei chwifio hefyd ar gyfer Dydd Cofio Pobl Drawsryweddol ac ar gyfer Pefr Abertawe yn 2013.

Mae cyfarfodydd y fforwm wedi cynnwys:
- Cyfnewid gwybodaeth
- Cynllunio digwyddiadau
- Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar:
  - Iechyd
  - Troseddu casineb
  - Prosiect ieuenctid LGBT
  - Mynd i'r afael â therapi troi pobl hoyw
  - Anghenion chwarae plant a phobl ifanc

Yn ddiweddar bu'r fforwm yn destun adolygiad dwy flynedd a alluogodd aelodau i ailystyried nodau ac amcanion ac maent yn cynllunio ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol ag ymagwedd thema fwy penodol (mae'r gwaith hwn yn parhau o hyd). Roedd aelodau'r fforwm yn fodlon ar y cynnydd a wnaed ers ei sefydlu ac yn fodlon parhau i gefnogi gwaith y fforwm.

➢ Fforwm BME

Mae Fforwm Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) Bae Abertawe wedi cwrdd chwe gwaith ers mis Ebrill 2013 a chafodd y cyfarfodydd eu cefnogi'n dda gan aelodau'r gymuned, grwpiau gwirfoddol a sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Mae cyfarfodydd y fforwm wedi cynnwys:

- Sesiwn weithdy i nodi problemau a chyfleoedd allweddol
- Cyfnewid gwybodaeth
- Cynllunio digwyddiadau
- Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar:
  Iechyd
  Troseddau casineb
  Plant BME a'u cyfranogiad mewn gwersi nofio ysgol.

Cynhaliwyd digwyddiad cymunedol cyntaf y fforwm, o'r enw ‘Elimin8 Race H8!’, ym mis Mawrth 2014 i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu Hiliol a chynyddu ymwybyddiaeth o ddulliau adrodd am droseddau casineb. Denodd y digwyddiad dros 100 o bobl ac roedd yn cynnwys stondinau gwybodaeth, siaradwyr ysbrydolus a pherfformiadau gan artistiaid BME lleol.

5.5 <u>Achosion o Gasineb ac Aflonyddu (AGA)</u>

Mae Gweithdrefn Casineb ac Aflonyddu'r cyngor yn caniatáu i ddioddefwyr (neu dystion) roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad sydd wedi'i ysgogi gan ragfarn ar sail hil, tueddfryd rhywiol, anabledd etc. Gyda chaniatâd y dioddefwr, caiff pob adroddiad ei drosglwyddo i Dîm Troseddau Casineb Heddlu De Cymru.

Eleni (2013-2014), adroddwyd am 15 achos o gasineb ac aflonyddu (AGA) i'r cyngor, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn ymwneud â hil.
Yn gyffredinol cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt dros y pum mlynedd diwethaf, a allai fod oherwydd yr ymwybyddiaeth gynyddol o ddulliau adrodd eraill megis cyfleuster adrodd ar-lein Cymru Ddiogelach (sy'n cael ei hysbysebu ar wefan allanol y cyngor) a gwaith Tîm Troseddau Casineb Heddlu De Cymru a sefydlwyd yn benodol.

Rydym yn parhau i rannu'r wybodaeth o AGA (o ran lleoliad a'r math o ddigwyddiad) â'n cydweithwyr yn yr Uned Gydnerthu. Caiff yr wybodaeth hon, ynghyd â ffigurau troseddau casineb gan Heddlu De Cymru, ei chasglu a'i mapio er mwyn nodi ardaloedd yn Ninas a Sir Abertawe lle mae'r achosion hyn yn fwy tebygol o ddigwydd. Yn ei dro, bydd hyn yn cynorthwyo gwaith targed yr agenda Atal.

Mae Amcan 4 y Cynllun Cyflwyno Cydlyniad Cymunedol (2013 - 2015), sef ‘Lleihau troseddau casineb yn erbyn y rhai â nodweddion gwarchodedig’, yn arddangos ymrwymiad y cyngor i fynd i'r afael â throseddau casineb (neu achosion o gasineb). Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn datblygu Strategaeth Troseddau Casineb (i gyd-fynd â Fframwaith Llywodraeth Cymru) a fydd yn ceisio cyfuno'r holl waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y

cyngor a'n partneriaid i weld beth yw'r ffordd orau i ni gydgysylltu. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar feysydd megis:

- gwaith hyrwyddo proses adrodd trydydd parti'r cyngor
- hyfforddi staff rheng flaen
- mapio achosion o gasineb ar draws Dinas a Sir Abertawe i nodi ardaloedd lle mae troseddau casineb yn fwy tebygol
- monitro bwlio mewn ysgolion sy'n ymwneud â hunaniaeth.

Caiff hyn ei adolygu ar ôl cyhoeddi 'Taclo Troseddau Casineb a Digwyddiadau: Fframwaith Gweithredu' gan Lywodraeth Cymru.

5.6 <u>Gwaith Rhanbarthol a Phartneriaeth</u>
Yn ogystal â gwaith y bartneriaeth y sonnir amdano trwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r Grŵp Cydraddoldeb Rhanbarthol a sefydlwyd gennym ym mis Mawrth 2011 yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Caiff ein cyfarfodydd eu hwyluso gan gydweithwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; eleni, bu'r trafodaethau hyn yn ymdrin â materion a oedd yn cynnwys troseddau casineb ac asesiadau effaith cydraddoldeb.

5.7 <u>Stonewall</u>
Mae Stonewall Cymru'n elusen Cymru gyfan sy'n ceisio cyflawni cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol (LGB) ar draws Cymru. Daeth Dinas a Sir Abertawe'n aelod o Stonewall yn 2013 pan ymunodd â'r rhaglenni Hyrwyddwyr Amrywiaeth a Hyrwyddwyr Addysg.

Mae Rhaglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall yn fforwm arfer da ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â'r gweithle. Trwy ymuno â'r rhaglen hon, rydym yn ymrwymo i hyrwyddo amrywiaeth a gwella'r gweithle ar gyfer pobl LGB. Fel rhan o'r ymrwymiad hwnnw cymeron ni ran yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle sy'n meincnodi cyflogwyr yn ôl eu tegwch tuag at weithwyr LGB. Fe'n rhestrwyd yn 329 ar y mynegai ar ein hymgais gyntaf.

Mae Rhaglen Hyrwyddwyr Addysg Stonewall yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol i fynd i'r afael â homoffobia a bwlio homoffobig yn eu hysgolion er mwyn hyrwyddo amgylchedd dysgu diogel a chynhwysol i bob person ifanc. Yn debyg i Fynegai'r Gweithle, mae'r Mynegai Cydraddoldeb Addysg yn ymarfer meincnodi blynyddol i ddangos pa mor dda mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â homoffobia a bwlio homoffobig yn eu hysgolion ac yn cefnogi pobl ifanc LGB yn eu cymuned leol.

Ar adeg ysgrifennu hyn, mae ein Mynegai Cydraddoldeb Addysg cyntaf wedi cael ei gyflwyno ac rydym yn aros am adborth, yn ogystal â hysbysiad o'n rhestriad cenedlaethol.

5.8 <u>Addysg ac ysgolion</u>
Mae gwaith wedi parhau gyda chydweithwyr Mynediad i Wasanaethau ac Addysg ar ddatblygu protocol monitro ar gyfer ysgolion er mwyn cofnodi bwlio ac aflonyddu sy'n ymwneud â hunaniaeth. Roedd y broses Digwyddiadau Hiliol flaenorol yn hen-ffasiwn o ran ei chynnwys a'i gweithredu fel ymarfer

gweinyddol.  Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu mecanwaith hawdd ac effeithiol ar gyfer ysgolion, a fydd yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig.  Mae trafodaethau cychwynnol â phenaethiaid wedi bod yn gadarnhaol, gyda chyfnod peilot yn yr arfaeth ar gyfer rhywbryd yn ddiweddarach yn 2014.

Mae ein gwaith gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi parhau yn 2013-14 gyda'r sefydliad yn gweithio mewn 19 ysgol ar draws y ddinas a'r sir.

5.9 <u>Gwaith gyda Phobl Hŷn</u>
Mae gwaith i gyflwyno'n lleol *Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru* gan Lywodraeth Cymru wedi cynnwys:

- tri fforwm iechyd, gofal cymdeithasol a lles
- llunio cylchlythyr Rhwydwaith 50+
- digwyddiad yn Theatr y Grand i ddathlu Diwrnod Pobl Hŷn y DU
- cyfarfod blynyddol y rhwydwaith gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn siaradwr gwadd.

Ym mis Chwefror 2014, gwnaeth y cyngor ymrwymiad cyhoeddus i hyrwyddo hawliau, anghenion a photensial pobl hŷn ar ôl llofnodi Datganiad Dulyn ar Ddinasoedd sy'n Ystyriol o Bobl Hŷn.   Yn dilyn hyn, ymunodd â Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, a hwylusir gan swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn.

5.10 <u>Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithredu Byw'n Annibynnol</u>
Ym mis Ionawr 2014, derbyniodd Byrddau Gwasanaeth Lleol ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru am y fframwaith hwn.  Gofynnwyd i'r holl bartneriaid am fanylion eu gwaith mewn perthynas â phrif themâu'r fframwaith.  Casglwyd gwybodaeth o bob rhan o'r cyngor er mwyn cyfrannu at yr ymateb lleol.

5.11 <u>Gweithio gyda gofalwyr</u>
Ym mis Tachwedd 2013 cynhaliwyd digwyddiad Diwrnod Hawliau Gofalwyr yn Stadiwm Liberty. Rhoddwyd manylion y mentrau a'r cynlluniau gweithredu diweddaraf ar gyfer gofalwyr i'r rhai a ddaeth i'r digwyddiad a chawsant y cyfle i holi panel o ymarferwyr proffesiynol. Treuliodd gofalwyr, staff a darparwyr amser yn trafod yr hyn sy'n effeithiol i ofalwyr a'r hyn nad ydyw ac awgrymwyd cyfleoedd i wella.

Ym mis Mehefin 2013 trefnwyd y gweithgareddau Wythnos Gofalwyr blynyddol mewn partneriaeth â Chanolfan Gofalwyr Abertawe a siopau Sainsbury's. Treuliwyd yr wythnos gan staff a gwirfoddolwyr mewn lleoliadau amrywiol ar draws Abertawe yn cynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr a'r materion maent yn eu hwynebu. Roedd hwn hefyd yn gyfle i gynghori gofalwyr am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn lleol.

Mae Grŵp Gweithredu Gofalwyr Abertawe wedi parhau i gwrdd bob tri mis trwy gydol 2013/14. Daw aelodau'r grŵp o sefydliadau gofalwyr lleol a chynrychiolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r grŵp yn trafod materion a mentrau lleol ac yn cyfrannu at ddatblygu cynllun gweithredu gofalwyr lleol.

Datblygodd y Grŵp Gweithredu Gofalwyr Ifanc gynllun gweithredu drafft, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan nifer o asiantaethau sy'n cefnogi pobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Mawrth 2014 i gynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a'r heriau maent yn eu hwynebu. Mae cyfarfod dilynol wedi'i drefnu ar gyfer hydref 2014.

Cyflwynwyd fersiwn newydd o'r Asesiad Gofalwyr ym mis Medi 2013. Mae'r offeryn hwn ar gyfer ymarferwyr proffesiynol gofal cymdeithasol yn sicrhau bod yr asesiad yn ystyrlon ac yn canolbwyntio ar y meysydd sy'n bwysig i'r gofalwr. Mae'r asesiad wedi cael ei addasu trwy gydol y flwyddyn i adlewyrchu gwelliannau a nodwyd gan staff rheoli gofal a'r gofalwyr eu hunain.

5.12 <u>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)</u>
Ym mis Medi 2013, ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf i fabwysiadu dyletswydd 'ystyriaeth briodol' ynglŷn â hawliau plant, sy'n berthnasol i benderfyniadau corfforaethol.

Ar adeg ysgrifennu hwn, mae Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc drafft yn cael ei lunio ac mae'r gwaith yn cael ei wneud i gynnwys gofynion CCUHP yn ein proses AEC.

Caiff y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc drafft ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod yr haf ac fe'i lansiwyd ar 20 Tachwedd 2014.

Sefydlwyd grwpiau tasg a gorffen i weithio ar wahanol agweddau ar y datblygiad hwn, megis hyrwyddo, cynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddi.

5.13 <u>Cydlyniad Cymunedol</u>
Mae'r cynllun cyflwyno lleol ar gyfer Cydlyniad Cymunedol wedi'i ddiweddaru yn unol â gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru. Mae ein grwpiau arweinyddiaeth a sicrwydd yn parhau i sicrhau cynnydd a monitro. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad 1 (gweler Amcan 16).

5.14 <u>Tlodi</u>
Mae mynd i'r afael â thlodi'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor a, chan ddatblygu gwaith blaenorol y Fforwm Tlodi, mabwysiadwyd Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi gan y cyngor llawn ar 4 Tachwedd 2014. Y prif themâu yn y strategaeth newydd yw:

- Grymuso pobl leol
- Newid diwylliannau
- Targedu adnoddau.

Ceir cynllun gweithredu clir ar gyfer y cyngor wedi'i rannu yn ôl y tair thema hyn, ynghyd â fframwaith rheoli perfformiad sy'n cynnwys amcanion a mesurau Cynllun Un Abertawe, gyda thargedau ar gyfer 2017 a 2020, yn ogystal â rhaglenni gwaith y cyfeirir atynt ar draws y cyngor a'n partneriaid.

5.15 <u>Diwygio Lles</u>

Yn dilyn gwaith blaenorol i liniaru effaith negyddol diwygio lles, mae'r sylw penodol ar hyn o bryd ar sicrhau bod Dinas a Sir Abertawe a'i sefydliadau partner yn barod i gyflwyno Credyd Cynhwysol yn genedlaethol.
Mae gweithgareddau presennol yn cynnwys:

- Seminarau hyfforddi a chynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer darparwyr cyngor yn y Ddinas a'r Sir a'i sefydliadau partner.
- Mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol, grŵp amlasiantaeth o ddarparwyr gwasanaethau, yn datblygu cynllun gweithredu sy'n ymdrin yn benodol â meysydd lle mae angen yn debygol.
- Sicrhau y darperir cefnogaeth Digidol yn Ddiofyn ar gyfer dinasyddion Abertawe.
- Mae cydweithwyr yn yr Adran Tai yn proffilio tenantiaid i nodi'r rhai y mae'n debygol y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt pan gaiff Credyd Cynhwysol ei gyflwyno yn Abertawe.

5.16 <u>Cam-drin yn y Cartref</u>
Disgwylir cwblhau Siop Dan yr Unto Abertawe ar gyfer Cam-drin yn y Cartref ar amser ym mis Rhagfyr 2014, gan agor ym mis Ionawr 2015. Mae hon wedi cael ei hadeiladu a'i dodrefnu i safon uchel iawn er mwyn ein galluogi i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i bawb sydd wedi profi cam-drin yn y cartref. Bydd presenoldeb amlasiantaeth i ddarparu ymagwedd gyfannol at wasanaethau.

Rydym wedi derbyn Gwobr Tref y Rhuban Wen am ein cyflawniadau yn ein gwaith aml-asiantaeth i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod ar ei holl ffurfiau. Mae'r wobr hon yn rhoi sylw penodol i ddynion a bechgyn sy'n rhan o'r gwaith hwn. Rydym yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion cam-drin yn y cartref yn enwedig yn ystod digwyddiadau'r Rhuban Wen ym mis Tachwedd.

Mae hyfforddiant i staff wedi'i gyflwyno ar draws sawl adran eleni gyda grŵp craidd o staff yn cael eu hachredu'n hyfforddwyr.

5.17 <u>Cynllunio busnes</u>
Mae proses cynllunio busnes y cyngor yn cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad cymdeithasol trwy becyn cymorth sy'n cynghori rheolwyr ar y prosesau a'r cynlluniau gweithredu sydd ar waith (e.e. amcanion cydraddoldeb a'r broses AEC); mae'r Tîm Mynediad i Wasanaethau'n cynnig cefnogaeth i reolwyr.

5.18 <u>Hyfforddiant</u>
Mae gweithgaredd hyfforddi allweddol eleni wedi cynnwys dechrau Set Dysgu Gweithredol ar gyfer ein Haelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb – wedi'i gynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5.19 <u>Fersiwn hawdd ei darllen</u>
Y llynedd cyhoeddwyd ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Byddwn yn gwneud yr un peth eleni i sicrhau bod gwybodaeth mor hawdd cael hyd ati â phosib.

5.20 Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS)
O ganlyniad i'n haelodaeth partneriaeth WITS, mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.

Ar adeg ysgrifennu, nid oedd dadansoddiad o'r ieithoedd yn ystod 2013-14 ar gael gan WITS. Caiff yr wybodaeth hon ei chasglu ar wahân ar ôl ei derbyn.

Ar ôl nifer cynyddol o geisiadau am gyfieithu a chyfieithu ar y pryd wedi i ni ymaelodi â phartneriaeth WITS, mae nifer yr achlysuron pan gysylltwyd â WITS wedi sefydlogi ac mae'n weddol gyson trwy gydol y flwyddyn. Mae gwaith wedi parhau ar beilot Sign Translate ar gyfer ein canolfan gyswllt, lle bydd modd i bobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel iaith gyntaf gael dehongliad uniongyrchol trwy we-ddolen fideo. Bu'r adborth cychwynnol yn galonogol iawn.

5.21 Y Gronfa Newid
Trwy'r Gronfa Newid, cafodd 17 o sefydliadau mawr a bach eu cefnogi'n ariannol trwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws dinas a sir Abertawe. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchodedig, neu'n cynrychioli eu diddordebau.

5.22 Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT
Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi darparu arian grant o 1 Ebrill 2013 am hyd at flwyddyn i ddarparu gwasanaeth(au) cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Cafodd grantiau eu dyfarnu i ddau sefydliad i weithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth peilot; mae'r peilot hwn yn destun adolygiad a all barhau trwy 2014/15.

**6. Sylwadau cloi**
Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn gyntaf ein CHW. Gwnaed cynnydd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb ac rydym yn gadarnhaol iawn am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i'w chyflwyno, ymhell y tu hwnt i'n Hamcanion Cydraddoldeb. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.

Wrth i ni ganolbwyntio ar y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn bwriadu dechrau gwaith ar CHW wedi'i ddiweddaru'n barod ar gyfer 2016, gydag Amcanion Cydraddoldeb newydd a/neu barhaus.

## Atodiad 1

### Amcanion Cydraddoldeb

**Amcan Cydraddoldeb – Ymgynghori a Chynnwys**

| **Amcan Cydraddoldeb 1** | | |
|---|---|---|
| **Sicrhau bod ymgynghori a chynnwys yn gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Corfforaethol | | |
| Rhoi Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys newydd ar waith | 2016 Mawrth | **Ar waith:**<br>Mae Craffu wedi ymchwilio i Gynnwys y Cyhoedd. Caiff canlyniadau hyn eu defnyddio i gyfeirio'r strategaeth newydd. Ar ôl ei llunio, byddwn yn dilyn y broses arferol o fabwysiadu'r strategaeth (gan gynnwys cynnal ymgynghoriad a cheisio cymeradwyaeth gan y cyngor llawn) erbyn mis Mawrth 2016. |
| Adrannol | | |
| Adfywio Economaidd a Chynllunio | | |
| Sefydlu grŵp swyddogion penodol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a'r Adran Adfywio Economaidd a Chynllunio er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb allweddol sy'n codi o'r ymgynghori ar y rhaglenni gwaith parhaus.<br>▫ Cyflwyno o leiaf 3 sesiwn grŵp swyddogion y flwyddyn;<br>▫ Defnyddio'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb fel fforwm i ymgynghori ar raglenni gwaith allweddol | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>O ran y camau gweithredoedd cysylltiedig a sefydlwyd:<br>▫ Cynhaliwyd cyfarfod grŵp swyddogion ar 12 Mehefin, 2013. Rhoddodd y sesiwn hon drosolwg manwl o ddatblygiadau diweddar yn neddfwriaeth ac arfer cydraddoldeb dros y flwyddyn flaenorol. Tynnwyd sylw at amrywiaeth o faterion cydraddoldeb sy'n ymwneud â gwaith a thrafodwyd y rhain ymhellach. Cytunwyd y byddai unrhyw ffynonellau gwybodaeth ychwanegol yn cael eu dosbarthu i'r grŵp trwy gydol y flwyddyn. Cytunwyd y byddai'r cynrychiolwyr yn y cyfarfodydd yn tynnu sylw at unrhyw broblemau posib a fyddai'n arwain at drefnu rhagor o sesiynau. |

| | | |
|---|---|---|
| parhaus/sydd ar ddod;<br>▫ Sicrhau cyfathrebu ymatebol a pharhaus rhwng cynrychiolwyr o grwpiau swyddogion a rhanddeiliaid;<br>▫ Nodi materion cydraddoldeb ac ymatebion posib a fydd yn helpu i wella cyflwyno rhaglenni gwaith parhaus. | | Ni alwyd am ragor o sesiynau grŵp swyddogion gan fod cynrychiolwyr yn tueddu'n fwy erbyn hyn i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r Tîm Mynediad i Wasanaethau trwy gydol y flwyddyn yn unigol. Cynigir y dylid cadw'r ymagwedd hon.<br>▫ Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb wedi cael ei ddisodli'n raddol gan amrywiaeth o fforymau sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd a sefydliadau cymunedol e.e. y Grŵp Cydgysylltu Anableddau (GCA). Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i ddarparu gwybodaeth fwy penodol ac uniongyrchol ar gyfer amrywiaeth o fforymau. Er enghraifft, yn achos proses y Cynllun Datblygu Lleol, rhoddodd y Tîm Polisi Cynllunio gyflwyniad i'r grŵp yn ogystal â chynnal sesiwn holi ac ateb am yr ymgynghoriad ynghylch y Strategaeth a Ffefrir. Bydd y fath sesiynau'n parhau yn ôl yr angen.<br>▫ Mae gwneud hyn wedi sicrhau cyfathrebu ymatebol a pharhaus rhwng swyddogion a fforymau sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd a sefydliadau cymunedol. Roedd hyn yn gyfle i ystyried materion ymhellach gan arwain at gyflwyno sylwadau ffurfiol i ymgynghoriadau. Cytunwyd y byddai swyddogion yn sicrhau y byddai sylw'r grŵp yn cael ei dynnu at unrhyw raglenni gwaith sydd o ddiddordeb a byddai'r grŵp yn gwahodd swyddogion i sesiynau unigol yn y dyfodol.<br>▫ Proses barhaus yw nodi problemau cydraddoldeb mewn rhaglenni gwaith. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran y gwaith a wnaed y llynedd i chwilio am safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr. Lluniwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC)pwrpasol ar y cyd â'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a cheisiwyd mewnbwn a chyngor cyffredinol ychwanegol trwy gydol y gwaith. Yn ogystal, cwblhawyd AEC gan y Tîm Datblygu ac Adfywio Ffisegol ar ei raglen waith Dinas y Glannau a gyfeiriodd ei ymgynghoriadau â |

| | | |
|---|---|---|
| | | grwpiau rhanddeiliaid mynediad ynghylch ei brosiectau datblygu Rhodfa Abertawe a Chysylltiadau â'r Glannau. Yn ogystal, mae cyfleoedd hyfforddiant penodol sy'n seiliedig ar gydraddoldebau bellach yn cael eu cyfeirio at swyddogion arbenigol priodol ar unwaith e.e. Hyfforddiant Asesu Effaith Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig. |
| Diwylliant a Thwristiaeth | | |
| Cysylltu â fforymau/grwpiau trawsrywiol i drafod datblygiadau'r gwasanaeth | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Yn dilyn ymgynghoriad, adolygu'r dichonolrwydd a'r dewisiadau er mwyn darparu gweithgareddau ychwanegol ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth sydd o ddiddordeb i gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (BME). | Mawrth 2016 | **Ar waith:**<br>Symudwyd hyn ymlaen i 2013-14 ond nis cyflawnwyd oherwydd y daeth swydd y swyddog ymgynghori i ben o ganlyniad i arbedion cyllidebol yn 2014/15.<br>Er mwyn datblygu, bydd gwasanaethau'n treialu dull arall o ymgynghori'n uniongyrchol â'r Fforwm BME, sy'n esbonio'r newid i'r dyddiad cau. |
| Sefydlu proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer digwyddiadau mawr a pharhau i ymgynghori â SAFE a Fforwm Anableddau Abertawe. | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Bydd digwyddiadau pwysig yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth eu trefnu. Dechreuodd hyn gyda Gwledd y Gaeaf ar y Glannau ym mis Tachwedd 2012 (a gwblhawyd ac sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol).<br>Mae asesu cychwynnol eisoes wedi dangos bod angen cynnal mwy o ymchwil i bwy sy'n ymweld â'r digwyddiadau hyn. Caiff hyn ei drefnu gyda'r Tîm Marchnata ar hyn o bryd.<br>Mae'r Tîm Digwyddiadau'n parhau i ymgynghori â Mynediad i Bawb Abertawe (SAFE), yn benodol ynglŷn â digwyddiadau mawr.<br>Er mwyn datblygu hyn ymhellach, bydd swyddogion o'r Tîm |

| | | |
|---|---|---|
| | | Digwyddiadau'n cwrdd â Fforwm Anabledd Abertawe a'r Tîm Mynediad i Wasanaethau i geisio eu barn a chwilio am ffordd ymlaen. Bydd hyn yn dechrau gyda'r cynllunio ar gyfer Sioe Awyr Genedlaethol Cymru, y digwyddiad mawr nesaf yn 2015. Bydd hyn, yn ei dro, yn cyfeirio cynllunio digwyddiadau yn y dyfodol. |
| Ymgynghori â fforymau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) i nodi unrhyw rwystrau posib i gyfranogi. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>(Wedi'i gwblhau fel rhan o gamau gweithredu LGBT eraill yn y ddogfen hon) |
| Tai | | |
| Datblygu, drafftio, hysbysebu ac ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol wedi'i diweddaru. | Ebrill 2012 ac yn barhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cymeradwywyd yr SCTLl bresennol gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2011. Mae gwaith yn parhau ar hyn o bryd ar roi'r cynllun gweithredu ar waith e.e. cynyddu aelodaeth y grŵp, cwblhau'r Adolygiad Panel Ymgynghorol Tenantiaid. Mae'r diweddariad blynyddol wedi cael ei gwblhau a disgwylir i adolygiad y strategaeth nesaf ddechrau yn haf 2014, i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2015. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid cyn ei gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru. |

**Amcan Cydraddoldeb – Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth**

| **Amcan Cydraddoldeb 2** | | |
|---|---|---|
| **Cynyddu ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyflwyno rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth well wedi'i diweddaru** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Corfforaethol | | |
| Adolygu'r deunydd a'r adnoddau | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| hyfforddi sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb a hyfforddiant AEC | | |
| Ystyried datblygiadau darpariaeth hyfforddi e-Ddysgu/dysgu cyfunol sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb ac AEC | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| I ddechrau, bydd staff allweddol - ond, yn y pen draw, y staff cyfan - yn derbyn hyfforddiant gorfodol am Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Parhaus | **Ar waith:**<br>Mae nifer o raglenni hyfforddi sy'n ymwneud â datblygu cydraddoldebau (pwrpasol a chyffredinol) wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith ers cyflwyno'r ddeddf er mwyn i staff fanteisio arnynt, a hynny'n wyneb yn wyneb a thrwy e-Ddysgu. Caiff dadansoddiad fesul blwyddyn ei gynnwys yn Atodiad 2.<br>Mae'r cwrs Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chydraddoldeb yn cael ei rannu'n ddau gwrs ar wahân (i'w gwblhau erbyn 26/01/15). Yna bydd modd cynnal y cwrs cydraddoldeb (y fersiynau e-Ddysgu ac wyneb yn wyneb) fel cwrs gorfodol i bob rheolwr ac aelod o staff. Bydd llwyddiant hyn yn dibynnu ar ddiffinio'r cwrs hwn yn orfodol gan Grŵp y Cyfarwyddwyr. Bydd cyfathrebu mewnol a'r cyflwyniad cyffredinol yn dechrau ym mis Chwefror 2015. |
| Bydd pob rheolwr yn derbyn hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gweithdrefnau AEC (lle bo hynny'n briodol) | Parhaus | **Ar waith:**<br>Fel gyda'r staff cyffredinol, mae nifer o raglenni hyfforddi sy'n ymwneud â datblygu cydraddoldeb wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno er mwyn i reolwyr fanteisio arnynt, a hynny'n wyneb yn wyneb neu drwy e-Ddysgu. Caiff dadansoddiad fesul blwyddyn ei gynnwys yn Atodiad 2 isod.<br><br>Cynhelir mwy o hyfforddiant i reolwyr fel yr amlinellwyd uchod. |
| Sicrhau bod pob cwrs hyfforddiant, gan gynnwys y cwrs sefydlu corfforaethol, yn | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| adlewyrchu'r rheoliadau cydraddoldeb a'r arfer gorau diweddaraf | | |
| Sicrhau y caiff hyfforddiant corfforaethol ei fonitro i adlewyrchu'r presenoldeb ar bob cwrs hyfforddiant corfforaethol yn gywir | Parhaus | **Ar waith:**<br>Yn dilyn cyflwyno'r system rheoli dysgu newydd yn ISIS, mae ceisiadau pob cynrychiolydd yn gysylltiedig â'u cofnodion personél canolog.<br>Mae hyn yn galluogi asesiad presenoldeb llawn gan yr holl nodweddion gwarchodedig.<br>D.S. Sylwer bod yr uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod cofnodion ISIS wedi'u diweddaru a bod gweithwyr wedi cwblhau'r holiadur cydraddoldebau a ddosbarthwyd gan AD yn 2013. |
| Adolygu canllawiau Gwasanaethau Cwsmeriaid (o ran y rhannau hynny'n sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth) a hyrwyddo'r ddau eto yn y cyngor ac yn allanol. | Ebrill 2013 | **Ar waith:**<br>Cynhaliwyd gwiriad AEC fel rhan o'r adroddiad a gaiff ei gyflwyno i'r Cabinet ar 1 Gorffennaf, gan amlinellu strategaeth newydd ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid. Caiff rhagor o AEC manwl eu cwblhau ar gyfer datblygiadau newydd. |
| Datblygu'r wybodaeth a'r data sy'n ymwneud â'r holl nodweddion gwarchodedig a chadw darlun demograffig cadarn o ddinas a sir Abertawe | Parhaus | **Ar waith:**<br>Mae dadansoddiad y cyngor o nodweddion gwarchodedig yn Ninas a Sir Abertawe wedi cael ei gynnal a'i ddatblygu lle bo modd (gan ddibynnu ar gyfyngiadau adnoddau) y llynedd, gyda gwybodaeth ddemograffig ychwanegol wedi'i diweddaru ar we-dudalennau 'Ymchwil a Gwybodaeth' y cyngor.  Mae hyn yn cynnwys data cymdeithasol a demograffig lleol ychwanegol o Gyfrifiad 2011 (gan gynnwys adroddiad pwnc – "Cyfrifiad 2011: Poblogaeth yn ôl Grŵp Ethnig a Chrefydd", Gorffennaf 2013, gyda rhagor yn yr arfaeth, gan gynnwys adroddiad am y Gymraeg yn Abertawe) a data proffiliau a dangosyddion yn yr ail 'Asesiad Anghenion Strategol Un Abertawe' (2013). Disgwylir cwblhau'r fersiynau newydd o broffiliau wardiau Abertawe, gan gynnwys data wedi'i ddiweddaru lle bydd hynny ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | gael, yn ystod haf 2014. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | | |
| Cyflwyno'r Rhaglen Ddysgu Cynhwysiad Cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth staff ar draws DASA o'r materion sy'n wynebu unigolion a grwpiau sy'n profi dieithrio oherwydd tlodi incwm, gwasanaeth a chyfranogi | Dechrau mis Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd yr hyfforddiant hwn ei ailstrwythuro i adlewyrchu'r ymrwymiad a wnaed gan y Cabinet i ganolbwyntio adnoddau ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yn Abertawe. Mae wardiau Townhill a Phenderi a rhan o Ward y Castell bellach yn Ardaloedd Targed T1 a'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf eraill yw T2.<br><br>Cafodd yr hyfforddiant Mynd i'r Afael â Thlodi yn Abertawe diwygiedig ei dreialu yn ardal Townhill yn Abertawe ym misoedd Medi a Hydref 2013. Y targed oedd hyfforddi 80 aelod o staff mewn 4 wythnos.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth ½ diwrnod ar gyfer rheolwyr. Roedd 54 person yn bresennol.<br>Cynhaliwyd 4 cwrs deuddydd ar gyfer staff rheng flaen a datblygu polisi. Roedd 59 person yn bresennol.<br>Cyfanswm o 113 o bobl.<br><br>Mae adroddiad am y peilot ar gael ar gais; mae angen gwneud mwy o waith er mwyn parhau i gyflwyno hyn yn sgîl llwyddiant y peilot. Serch hynny, mae adnoddau'n brin. |
| Darparu llinell gyngor hawliau lles am 3 diwrnod yr wythnos i gefnogi staff a sefydliadau partner DASA wrth gyd-drafod y newidiadau sylweddol i'r system fudd-daliadau yn sgîl diwygio'r system | Parhaus | **Ar waith:**<br>Y targed ar gyfer 2013/14 oedd darparu 260 o sesiynau llinellau cynghori. Nifer gwirioneddol y sesiynau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn oedd 277 (244 yn 2012/13). Roedd hyn yn rhannol oherwydd y gallu ychwanegol a grëwyd trwy benodi Ymgynghorydd |

| | | |
|---|---|---|
| lles | | Hawliau Lles ychwanegol ym mis Medi 2013. Ymdriniwyd â 647 o ymholiadau i'w diweddglo yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn ychydig yn is na'r 691 yn 2012/13. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod yr ymholiadau'n troi'n fwy cymhleth wrth i staff rheng flaen sydd wedi cwblhau sesiwn hyfforddi fynd yn fwy hyderus a chymwys wrth ymdrin â'r materion mwy sylfaenol eu hunain.<br><br>Yn ogystal, roedd y gwasanaeth yn cyflwyno sesiwn cyngor ar fynediad cyhoeddus bob wythnos yn y Ganolfan Gynghori dros dro yn y Ganolfan Gyswllt. Rhwng 3 Mehefin 2013 a 31 Mawrth 2014, cynhaliwyd 40 sesiwn i roi cyngor, cefnogaeth a chymorth gyda llenwi ffurflenni i 170 aelod o'r cyhoedd. |
| Parhau â'r rhaglen o fforymau anffurfiol i staff yn ystod yr awr ginio i gynyddu'r ymwybyddiaeth o bob mater sy'n ymwneud â chydraddoldeb. | O leiaf ddwywaith y flwyddyn. | **Ni chyflawnwyd hyn yn 2013/14:**<br>Er nad oeddem yn gallu datblygu'r sesiynau amser cinio eleni oherwydd diffyg siaradwyr addas, parheir i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff y Gwasanaethau Cymdeithasol – gweler isod. |
| Ymchwilio i'r cyfleoedd i gysylltu â mentrau hyfforddi corfforaethol a chynllunio a datblygu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n briodol i anghenion staff y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Rhagfyr 2012 | **Ar waith:**<br>Er nad oeddem yn gallu datblygu cysylltiad â hyfforddiant corfforaethol eleni oherwydd blaenoriaethau a phwysau eraill, rydym yn parhau i adlewyrchu pob agwedd ar yr agenda gydraddoldeb mewn cyrsiau hyfforddiant penodol a gwblheir gan staff fel rhan o'u rhwymedigaethau DPP gofal cymdeithasol penodol.<br><br>Mae staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gael hyfforddiant corfforaethol ar gydraddoldebau ac maent hefyd yn gallu manteisio ar y modiwlau e-Ddysgu sydd ar gael trwy Staffnet. Yn ogystal, caiff pob agwedd ar yr agenda gydraddoldeb ei hadlewyrchu mewn gweithgareddau priodol a gwblheir gan staff fel rhan o'u |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhwymedigaethau DPP gofal cymdeithasol penodol. Bydd hyn yn cynnwys:<br>• sesiwn ar bob cwrs sefydlu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol am gydraddoldebau a Pholisi Iaith Gymraeg y cyngor;<br>• sesiwn am gydraddoldebau ar hyfforddiant sefydlu a ddarperir ar gyfer staff gofal cymdeithasol newydd sy'n cael eu recriwtio ar gyfer staff gofal yn y cartref;<br>• trafod cydraddoldebau a gwerthoedd fel rhannau annatod o lawer o'r cyrsiau hyfforddi parhaus e.e. fel rhan o hyfforddiant gwerthoedd i staff sy'n astudio ar gyfer diploma QCF, MCA DoLS, Diogelu, Ailalluogi etc;<br>• cynllunio i gynnal nifer o gyrsiau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer gofalwyr maeth yn ystod 2014-15;<br>• darparu llyfrau a deunydd darllen am gydraddoldebau a materion cysylltiedig yn llyfrgell y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Caiff darpariaeth ac ymdriniaeth yn y dyfodol eu hadolygu fel rhan o'r cynllunio ar gyfer 2015-16. |
| Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol (GAEC) | | |
| Briffio ar gyfer Rheolwyr | Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Gofynnir i bob dechreuwr yn y GAEC gwblhau hyfforddiant Gofal Cwsmeriaid a Chydraddoldebau. Bydd sesiwn drafod hefyd fel rhan o'n cwrs sefydlu adrannol. |
| Mae pob gweithiwr y GAEC yn cael hyfforddiant wedi'i ddiweddaru. | Mawrth 2013 | |
| Yr amgylchedd | | |
| Datblygu canllawiau ar gyfer staff | Yn cael ei | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| toiledau cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion hunaniaeth rhyw. | adolygu bob chwe mis. | |
| Diwylliant a Thwristiaeth | | |
| Sicrhau bod holl staff gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth yn ymwybodol o bolisi bwydo ar y fron y cyngor. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Datblygu a chyflwyno arweiniad ar drawsrywiaeth ar gyfer holl wasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth. I fod yn berthnasol hefyd i staff gwirfoddol adeiladu cymunedol. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Tai ac Adfywio Cymunedau | | |
| Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith staff yn y llyfryn sefydlu ar-lein a'r llawlyfr gwybodaeth gwasanaethau i gwsmeriaid | Ebrill 2012 ac yn barhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Caiff y Gymraeg a diwylliant Cymru eu hyrwyddo i staff yn y Llyfryn Sefydlu ar-lein, Llawlyfr Gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a thaflen wybodaeth y tîm. Caiff defnydd cwsmeriaid o'r gwasanaeth siaradwyr Cymraeg ei fonitro bob tri mis.<br>Roedd taflen wybodaeth y tîm ar gyfer mis Mehefin 2013 yn atgoffa staff o'u cyfrifoldebau ynglŷn â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Mae Llyfryn Sefydlu'r Adran Tai yn annog staff i ddilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gronfa e-Ddysgu. |
| Parhau i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb ar gyfer staff cyfan Tai ac Adfywio Cymunedol gan ei ddiweddaru a'i fonitro'n rheolaidd | Ebrill 2012 (parhaus, yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae staff yn parhau i fynd i gyrsiau hyfforddiant cydraddoldeb er mwyn diweddaru eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth bresennol. Yn ogystal, mae hyfforddiant cydraddoldebau wedi cael ei ddarparu i denantiaid sy'n cyfranogi, ac mae hyfforddiant ychwanegol yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | debygol yn y flwyddyn nesaf. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Adnoddau Dynol**

| **Amcan Cydraddoldeb 3** | | |
|---|---|---|
| **Adolygu'r holl bolisïau AD, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Adolygu polisïau AD trwy'r Gweithgor Undebau Llafur | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Llunio llawlyfr staff ar y we a fydd yn cynnwys polisïau AD, amodau a thelerau, a gwybodaeth i staff ynglŷn â'r Ddeddf Cydraddoldeb | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Wedi hynny, adolygu polisïau AD yn flynyddol | Medi 2013 | **Ar waith:**<br>I'w adolygu ym mis Ebrill 2015. |
| Briffio rheolwyr am bolisïau AD allweddol | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau** |

| **Amcan Cydraddoldeb 4** | | |
|---|---|---|
| **Cyrraedd Lefel Aur Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Cyflwyno cais ar ran DASA am asesiad yn erbyn y Lefel Aur | Gorffennaf 2012 | **Ar waith:**<br>Trefnwyd asesiad ffug ar gyfer 23/1/15 i adennill y safon efydd gyda'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.<br>Adborth ychwanegol o asesiadau, am y gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer haenau uwch. |
| Cyflwyno arolwg agwedd/lles gweithwyr. | Mawrth 2013 | **Ar waith:**<br>Wedi'i ymgorffori i'r broses adborth hyfforddiant - rhoi ar waith ym mis Ionawr 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu'r polisi cyffuriau ac alcohol. | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Mabwysiadu gwerthoedd craidd ar gyfer iechyd a lles gweithwyr. | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Llunio polisi peiriannau bwyd iach a sicrhau bod peiriannau bwyd iach yn y prif adeiladau. | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau** |

| **Amcan Cydraddoldeb 5** | | |
|---|---|---|
| **Sicrhau bod cyfle gan bawb yn y gymuned geisio am swydd gyda'r cyngor** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Ennill achrediad y symbol anabledd (Cynllun Tic Dwbl) | Ebrill 2013 | **Ar waith:**<br>Mae gwaith yn parhau gyda Chanolfan Byd Gwaith gyda'r nod o gael achrediad a gwella'r gwasanaeth i ymgeiswyr a gweithwyr anabl. |

| **Amcan Cydraddoldeb 6** | | |
|---|---|---|
| **Creu system cyflogau a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf cydraddoldeb a fydd yn ymdrin ag unrhyw wahaniaethau cyflog presennol rhwng y rhywiau ynghyd ag amodau a thelerau ariannol cyflogaeth tryloyw sydd wedi'u cydweddu.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Parhau i ymgynghori ag undebau llafur er mwyn datblygu system cyflogau a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf cydraddoldeb. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Parhau i ymgynghori â'r undebau llafur i gydweddu a moderneiddio amodau a thelerau. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau** |

| **Amcan Cydraddoldeb 7** |
|---|
| **Cydymffurfio â'n dyletswydd i gyhoeddi Data Gweithlu/Gwybodaeth am Gyflogaeth** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
|---|---|---|
| Datblygu ein system ISIS AD i gofnodi manylion y nodweddion gwarchodedig. | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Cynnal arolwg staff i gasglu data am y nodweddion gwarchodedig a sgiliau iaith. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Cyhoeddi'r wybodaeth am gyflogaeth yn unol â'n dyletswydd. | Mawrth 2013 ac yn flynyddol | **Cwblhau ar gyfer 2013-4** |
| Dadansoddi'r data uchod i nodi materion allweddol i'r awdurdod | Gorffennaf 2013 | **Ar waith:**<br>Bydd y deilliannau'n dibynnu ar y dadansoddiad o'r canlyniadau. |

**Amcan Cydraddoldeb – Mynediad i Wasanaethau**

| **Amcan Cydraddoldeb 8** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad i wasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl anabl/fyddar** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Recriwtio Gweithiwr Cefnogi Polisi a Datblygu Gwasanaeth dynodedig (ar gyfer pobl a grwpiau B/byddar) (secondiad rhan-amser – contract 2 flynedd). | Medi 2012 | **Ar waith:**<br>Fel y cytunwyd arno, bydd y gwaith gyda'r gymuned B/byddar yn parhau, er enghraifft, trwy'r gwaith a amlinellir yn y camau isod.<br>O ganlyniad, caiff y cam gweithredu hwn ei ddileu. |
| Nodi materion mynediad penodol i bobl B/byddar yng Nghanolfan Gyswllt y cyngor. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cynhaliwyd peilot o Sign Translate yn y Ganolfan Gyswllt sy'n galluogi pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn iaith gyntaf i gael cyfieithiad uniongyrchol trwy ddolen fideo. Bydd y gwasanaeth hwn yn parhau i 2014-15. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Addysg**

| Amcan Cydraddoldeb 9 | | |
|---|---|---|
| **Gwella perfformiad dysgwyr lleiafrifoedd ethnig ar lefel TGAU.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gyflawni o leiaf cystal â'u cyfoedion. | Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref. | **Ar waith:**<br>• Yn 2013, roedd perfformiad plant o leiafrifoedd ethnig ar ôl eu cyfoedion yn Abertawe a Chymru gyfan -6% phwynt ar Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a -1.0% pwynt ar ddiwedd CA2 (DPC).<br>• Yn 2013, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, roedd perfformiad plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yn well na'u cyfoedion yn Abertawe a Chymru gyfan ar y Dangosydd Pwnc Craidd, sef +7.0% yn uwch.<br>Yn 2013, roedd perfformiad pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 hefyd yn well na'u cyfoedion yn Abertawe a Chymru gyfan ar y Dangosydd Pwnc Craidd, sef +10.0% yn uwch a Throthwy Lefel 2g +11.0 yn uwch. |
| Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd Asiaidd/Bangladeshaidd yn cyflawni o leiaf cystal â'u cyfoedion. | Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref. | **Ar waith:**<br>• Yn 2013 roedd perfformiad plant o gefndiroedd Asiaidd/Bangladeshaidd ar ôl eu cyfoedion yn Abertawe a Chymru gyfan **-3.0%** phwynt ar Ddangosydd y Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a **-4.0%** pwynt yn CA2 (DPC).<br>• Yn 2013, ar ddiwedd Cyfnod Allwedd 2 a 3, roedd perfformiad plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yn well na'u cyfoedion yn Abertawe a Chymru gyfan ar y Dangosydd Pwnc Craidd, sef **+7%** yn uwch.<br>Yn 2013, roedd perfformiad pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 hefyd yn well na'u cyfoedion yn Abertawe a Chymru gyfan ar y Dangosydd Pwnc Craidd, sef **+10.0%** pwynt a Throthwy Lefel 2 **+10.5** pwynt. |

| Amcan Cydraddoldeb 10 | | |
|---|---|---|
| **Cau'r bwlch perfformiad rhwng bechgyn a merched mewn cyrhaeddiad addysgol.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Cynnal tueddiadau gwellhaol wrth asesu bechgyn a merched yn CA2 a CA3 | Parhaus | **Ar waith:**<br>• Mae'r Dangosyddion Pwnc Craidd yn CA2 a CA3 yn cynnal tuedd ar i fyny.<br>• DPC CA2 – canlyniadau wedi cynyddu 9.9% rhwng 2009 a 2013 er y bu cynnydd bach yn unig yn 2013 o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (0.7%).<br>• DPC CA3 – canlyniadau wedi cynyddu 18.4% rhwng 2009 a 2013, gyda chanlyniadau 2013 wedi cynyddu 3.1% o'u cymharu â 2012. |
| Cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched | Parhaus | **Ar waith:**<br>• Bwlch rhyw DPC CA2 – tua 8% yn gyson. Gwelir gwelliant tebyg ymhlith bechgyn a merched o 10% ers 2009.<br>• Bwlch rhyw DPC CA3 – wedi lleihau o uchafbwynt o 12.8% yn 2011 i 10.0% yn 2013.<br>• Gwelir gwelliant sylweddol ymhlith bechgyn a merched yn y DPC ers 2009, ond mae canlyniadau'r merched wedi gwella'n gynt na rhai'r bechgyn (4.8%).<br>Yn Saesneg dros y 5 mlynedd diwethaf, mae'r bwlch rhyw wedi parhau'n sefydlog yn CA2 ond mae wedi cau 10.3% i'w bwynt isaf mewn 5 mlynedd yn CA3. |

| Amcan Cydraddoldeb 11 | | |
|---|---|---|
| **Gwella perfformiad addysgol plant Sipsiwn a Theithwyr** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| Parhau i feddwl am ffyrdd o wella cyfraddau presenoldeb plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd er mwyn gwella'u cyrhaeddiad | Parhaus | **Ar waith:**<br>Mae Gwasanaeth Cynnwys Dysgwyr yn Abertawe (ELiS) y Gwasanaeth Pobl Ifanc yn wasanaeth cwricwlaidd priodol sy'n gweithio gyda disgyblion oed uwchradd ar draws Abertawe, y mae eu presenoldeb yn wael ac y mae eu hamgylchiadau personol yn rhwystro'u cynnwys mewn dysgu.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr (GAT) yn Y Tŷ Dysgu – Campws Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, ond mae hefyd bellach yn cael ei gyflwyno o glwb ieuenctid – Stadwen – sy'n nes at gymuned y bobl ifanc.<br><br>Er bod y GAT yn gwneud pob ymdrech i geisio cynnwys ein plant a'n pobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd, ni cheir presenoldeb llawn yn y rhan fwyaf o achosion yn CA3 a 4, oherwydd pryderon rhieni a gwerthoedd diwylliannol. Cynigir mynediad llawn i'r holl bobl ifanc i ysgolion uwchradd yn eu cymuned. Oherwydd y broblem hon, rydym wedi llunio, datblygu a chyflwyno llwybrau dysgu ar gyfer disgyblion CA3 a 4.<br><br>Rydym wedi cynyddu nifer yr oriau y mae pobl ifanc yn cael eu haddysgu o fewn oriau'r ysgol ac mae hyn wedi cael ei gefnogi gan fwy o achrediad academaidd a galwedigaethol.<br><br>Gwnaethom logi ystafelloedd yn YMCA Abertawe i gyflwyno sesiynau Mathemateg a Saesneg i ddau ddisgybl oherwydd ei fod yn amgylchedd dysgu mwy priodol iddynt ac y byddai'n helpu i gefnogi presenoldeb rheolaidd.<br><br>Hefyd, gyda chymorth arian 14-19, rydym wedi ariannu i 4 o'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | disgyblion gwblhau cwrs adeiladu CITB yng Ngholeg Castell-nedd.<br><br>Rydym wedi parhau i gefnogi'r bobl ifanc sy'n gadael ar ddiwedd Blwyddyn 11 trwy weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a thîm allgymorth ôl-16 Abertawe. Rydym bellach wedi dynodi Swyddog Gyrfaoedd sy'n cefnogi pob un o'n disgyblion CA4. Roedd hyn yn eu helpu i drosglwyddo'n hwylus i gyflogaeth, addysg bellach a hyfforddiant a bydd yn parhau ar gyfer y rhai ym Mlwyddyn 11 a fydd yn gadael yr ysgol eleni.<br><br>Rydym wedi defnyddio cyllid Teuluoedd yn Gyntaf i barhau i gyflogi Gweithiwr Cefnogi fel aelod ychwanegol o'n tîm. Mae agwedd amlasiantaeth ar y rôl hon, wrth archwilio, datblygu a chyflwyno cyfleoedd ychwanegol i'r bobl ifanc achub arnynt. Roedd yn cynnwys creu cysylltiadau â phartneriaid allanol a chefnogi'r bobl ifanc yn ystod y gweithgareddau addysgol. |
| **Amcan Cydraddoldeb 12** | | |
| **Gwella ymwybyddiaeth yr holl blant a phobl ifanc o wybodaeth allweddol am dueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Sicrhau y caiff ysgolion eu cyfeirio at arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel y gellir arfer hyn mewn ysgolion, er enghraifft darpariaeth gwnsela ac arfer da o ran materion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT). | Parhaus - yn unol ag arweiniad a roddir. | **Ar waith:**<br>Dosbarthwyd yr holl arweiniad gan Lywodraeth Cymru i ysgolion trwy e-bost a'i osod ar dudalen benodol gwefan mewnrwyd y cyngor. |

| | |
|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 13** | |
| **Gwella mynediad disgyblion ag anabledd corfforol i addysg.** | |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
|---|---|---|
| Parhau i wella isadeiledd mewn ysgolion er mwyn gwella hygyrchedd. | Parhaus | **Ar waith:**<br>Mae'r Rhaglen AoS yn parhau i wella mynediad i isadeiledd mewn ysgolion. |
| Ymgyrchu dros ailosod y cyllid cyfalaf Mân Addasiadau i ddarparu ar gyfer anghenion unigol plant a phobl ifanc anabl mewn ysgolion. | Parhaus | **Ar waith:**<br>Nid yw lleihau cyllidebau'n caniatáu i'r cyllid hwn gael ei ailosod ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae pob mân addasiad yn cael ei wneud mewn ysgolion yn ôl yr angen i sicrhau bod anghenion unigol plant a phobl ifanc mewn ysgolion yn cael eu diwallu. |

| **Amcan Cydraddoldeb 14 – Sylwer bod hwn yn Amcan Partneriaeth sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, ac felly, mae'r gosodiad yn wahanol.** | | |
|---|---|---|
| **Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella deilliannau'r tlotaf.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Lleihau'r anghydraddoldebau yn neilliannau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella deilliannau'r tlotaf. | Parhaus – fel gyda phrosiectau a rhaglenni unigol. | **Ar waith:**<br>Mae enghreifftiau'n cynnwys:<br>**1. Dechrau'n Deg**<br>Parhaodd y rhaglen i ehangu gyda 2,174 o blant 0-3 oed a'u teuluoedd yn elwa o wasanaethau yn ystod 2013/14.<br>Hyd yma mae Dechrau'n Deg Abertawe'n perfformio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran presenoldeb, mae nifer yr absenoldebau heb ganiatâd wedi lleihau'n sylweddol a dengys Amserlenni Sgiliau Tyfu (SOG) yn 36 mis oed lefelau uwch o blant yn perfformio ar y norm datblygiadol neu'n uwch na hynny o'u cymharu ar 24 mis. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **2. Y Tîm am y Teulu (TAT)**<br>Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014, mae 299 o deuluoedd wedi cael eu cefnogi gan drefniadau'r Tîm am y Teulu yn Abertawe trwy ymagwedd gyfannol a chydlynol at ddiwallu anghenion wedi'u nodi ar gam ymyrryd cynnar.  Tynnwyd sylw gan yr adolygiad a gomisiynwyd yn allanol at effeithiolrwydd model TAT Abertawe.<br><br>**3. Meddygfa a Chanolfan Deuluoedd Mayhill**<br>Cyflwyno'r adroddiad diweddaraf am y prosiect hwn ym mis Ionawr 2015 i Friffio Corfforaethol. Rhoddir rhagor o adroddiadau ddiwedd mis Ionawr 2015. Mae AEC llawn wedi cael ei gwblhau ar y datblygiad hwn.<br><br>**4. Gofal Plant a Chwarae**<br>Cefnogi'r ddarpariaeth o ofal plant a chyfleoedd chwarae sy'n hawdd manteisio arnynt ar draws Abertawe gan gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.<br><br>**5. Teuluoedd yn Gyntaf**<br>Mae continwwm o gefnogaeth magu plant wedi cael ei ddatblygu a'i roi ar waith er mwyn cynnig llwybr i rieni wedi'i deilwra i'w hamgylchiadau unigol.  Yn ystod y flwyddyn, cafodd cyfanswm o 717 o deuluoedd, gan gynnwys 1,578 o blant, eu cefnogi trwy'r tîm. Dim ond ar 1.14% o'r teuluoedd yr oedd angen gwasanaeth Plant a Theuluoedd i ddiwallu eu hanghenion.<br>Cafodd y gweithdai a gynhaliwyd yn ystod Cynhadledd Magu Plant Abertawe ddechrau 2014 eu harwain gan rieni a rannodd eu teithiau eu hunain â'r cyfranogwyr trwy ddull stori ddigidol.<br>Cynhelir ymarfer ailgomisiynu ar draws rhaglen gyfan Teuluoedd yn Gyntaf sy'n seiliedig ar fodel wedi'i ddiwygio a'i ddiweddaru. |

**Amcan Cydraddoldeb – Tai**

| **Amcan Cydraddoldeb 15** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad cwsmeriaid i'r Gwasanaethau Tai.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Cyrraedd Safon Rheoli Tai Cymru (SRhTC) | Ymgynghori â thenantiaid, mis Awst 2011 - Gweithio tuag at gyflawni'r safon erbyn mis Awst 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Dyfarnwyd Safon Rheoli Tai Cymru i'r Gwasanaeth Tai am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mis Hydref 2013. Rydym wedi parhau i gydlynu â thenantiaid sy'n rhan o'r Grŵp Rheoli Ystadau bob tri mis i gytuno ar dargedau am y flwyddyn sydd i ddod a thrafod materion rheoli ystadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| Datblygu Strategaeth Rhenti. | Rhagfyr 2015 | **Ar waith:**<br>Yn wreiddiol disgwylid cwblhau'r Strategaeth Rhenti ym mis Ebrill 2014. Gwnaed gwaith i liniaru effaith newidiadau budd-dal ar denantiaid gan gynnwys dros 2,200 o ymweliadau â'r rhai y mae'r ffi tanfeddiannu, darparu Swyddog Cynhwysiad Ariannol penodol yn y Tîm Rhenti a hyrwyddo ymgyrch "Mae Eich Budd-daliadau'n Newid" yn effeithio arnynt.<br>Er bod rhai agweddau ar ddiwygio lles wedi cael eu cyflwyno, bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol yn gynt na'r disgwyl yn cael effaith fawr ar ganllawiau'r strategaeth ar gyfer sut bydd y cyngor yn ymdrin â'r rhai yr effeithir arnynt. Mae'r gwasanaeth yn cynnal arolwg ar hyn o bryd i'r holl denantiaid i fesur ymwybyddiaeth a helpu i hysbysu'r cyngor am y dulliau cefnogi y mae angen eu rhoi ar waith.<br>Gan ystyried hyn, bydd y strategaeth bellach yn parhau a disgwylir ei chwblhau erbyn diwedd 2015. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhoi'r wefan cyngor tai newydd ar waith. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae'r wefan bellach ar waith ac yn cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd i adrannau/asiantaethau amrywiol.<br>Mae monitro wedi dangos bod y wefan yn parhau i fod yn un o wefannau cynghori mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Caiff y wefan ei hyrwyddo ymhellach ym mis Medi/Hydref 2014. |
| Rhoi'r gwasanaeth ceisiadau ffôn ar waith yn llwyr ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Digartrefedd a cheisiadau rhestr aros ar gyfer cwsmeriaid y mae'n well ganddynt/y mae angen iddynt gael mynediad i wasanaethau dros y ffôn. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae'r gwasanaeth ffôn wedi cael ei roi ar waith yn llawn ac erbyn hyn dyma'r brif ffordd o wneud cais am dai ac am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.<br>Mae'r amser a gymerir i gwblhau'r broses DFG wedi lleihau o 321 diwrnod ym mlwyddyn ariannol 2011-12 i 263 diwrnod ym mlwyddyn ariannol 2013-14, yn rhannol oherwydd y defnydd o'r gwasanaeth ceisiadau ffôn. Mae'r newid i system ceisiadau ffôn wedi galluogi cwsmeriaid i gael mynediad i wasanaethau'n haws ac wedi gwella safon yr wybodaeth a gesglir, gan leihau'r nifer sy'n rhoi'r gorau. |
| ~~Datblygu Strategaeth Tai Lleiafrifoedd Du ac Ethnig (BME) Leol, ymgynghori yn ei chylch a'i llunio.~~<br><br>Cynnwys materion BME yn y Strategaeth Tai Leol newydd i sicrhau ymagwedd gyfannol. | ~~Rhagfyr 2012~~<br><br>Mehefin 2015 | **Camau gweithredu wedi'u diweddaru**<br>**Ar waith:**<br>Caiff materion BME eu cynnwys ym mhrif gorff y Strategaeth Tai Leol (STL). Mae'r STL yn cael ei datblygu a dylai fod yn barod yn hydref 2014.<br><br>Ni chadwyd at y dyddiad cau blaenorol gan y bu angen addasu'r Strategaeth Tai Leol ddrafft yn sylweddol o ganlyniad i rai mentrau tai a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar yr oedd angen eu cynnwys yn y strategaeth. |
| Hyrwyddo darpariaeth gwasanaeth | Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| Cymraeg mewn derbynfeydd cyhoeddus a thrwy'r cylchgrawn i denantiaid. | gydag adroddiadau blynyddol am gynnydd | **Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd deunyddiau hyrwyddo eu darparu a'u harddangos. Canran uwch o gwsmeriaid yn gofyn am wasanaeth Cymraeg. Caiff y gwasanaeth Cymraeg ei hyrwyddo ym mhob rhifyn o gylchgrawn y tenantiaid, Tŷ Agored.<br>Caiff deunyddiau hyrwyddo Cymraeg ar gyfer derbynfeydd cyhoeddus eu hadnewyddu'n rheolaidd. Mae staff sy'n siarad Cymraeg wedi derbyn bathodynnau sy'n eu nodi fel siaradwr Cymraeg. Mae'r staff sy'n siarad Cymraeg yn derbyn cortyn gwddf sy'n dangos y logo "Cymraeg". |

**Amcan Cydraddoldeb – Adfywio Cymunedol**

| **Amcan Cydraddoldeb 16** | | |
|---|---|---|
| **Ymgymryd â gwaith partneriaeth ar yr agenda Cydlyniant Cymunedol.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Cyflwyno cynllun gwirfoddol ar gyfer Dinas Noddfa | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Heb ei gyflawni hyd yma:**<br>Oherwydd y sefyllfa bresennol ynglŷn â strategaethau lleihau staff, mae wedi golygu bod adrannau'n anfodlon cynnig lleoliadau ar gyfer cynllun o'r fath. Fodd bynnag, dyma rywbeth y gellir ei annog yn y dyfodol, yn benodol yn unol â'r agenda Abertawe Gynaliadwy newydd. Gallai olygu staff yn gwirfoddoli yn hytrach nag aelodau Dinas Noddfa – newid ffocws bwriad gwreiddiol y cynllun. |
| Rhoi Cynllun Gweithredu Strategaeth Cydlyniad Cymunedol corfforaethol ar waith a'i fonitro. | Ebrill 2013 ac yn barhaus | **Ar waith:**<br>Mae Dinas a Sir Abertawe (DASA) wedi datblygu Cynllun Cyflwyno Cydlyniad Cymunedol, ar y cyd â gwasanaethau allweddol a phartneriaid allweddol. Mae hyn yn amlinellu'r nodau a'r camau gweithredu a fydd yn helpu i hyrwyddo cydlyniad yn Ninas a Sir Abertawe. Roedd y Cynllun Cyflwyno'n cynnwys pum deilliant |

| | | |
|---|---|---|
| | | allweddol:<br>• Arweinyddiaeth ymrwymedig a chymhellol ar gydlyniad cymunedol.<br>• Gweithlu sy'n deall ac sy'n ymatebol i faterion Cydlyniad Cymunedol.<br>• Hyrwyddo Cydlyniad Cymunedol trwy ddod â chymunedau a chenedlaethau ynghyd.<br>• Lleihau nifer y troseddau casineb yn erbyn y rhai â nodweddion gwarchodedig.<br>• Negeseuon a chamau gweithredu Cydlyniad Cymunedol allweddol ym mhob strategaeth a chynllun allweddol perthnasol (prif-ffrydio).<br><br>Er mwyn cyflwyno Cynllun Cyflwyno Cydlyniad Cymunedol Abertawe, mae DASA wedi llunio model llywodraethu blaengar. Mae hyn oherwydd bod gan aelodau'r cabinet ran ymarferol i'w chwarae wrth roi cyfeiriad strategol i gyflwyno'r Cynllun Cyflwyno Cydlyniad Cymunedol a'u bod yn gyfrifol am adrodd am eu cynnydd i gyfarfodydd perthnasol. |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion Cydlyniad Cymunedol yn allanol ac yn fewnol | Ebrill 2013 ac yn barhaus | **Ar waith:**<br>Mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar brif-ffrydio Cydlyniad Cymunedol yn ystod y cam hwn. Dyma rai enghreifftiau:<br>• Mae Cydlyniad Cymunedol bellach wedi'i wreiddio yn adran 4 y broses Asesu Effaith Cydraddoldeb.<br>• Mae aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth Cydlyniad Cymunedol yn hyrwyddo Cydlyniad Cymunedol. Yn ogystal, mae'r Hyrwyddwyr Cydraddoldeb wedi cytuno mewn egwyddor i gynnwys Cydlyniad Cymunedol yn eu cylch gorchwyl.<br>• Mae un o'r Hyrwyddwyr Cydlyniad Cymunedol yn arwain |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwreiddio Cydlyniad Cymunedol yn y rhaglenni hyfforddiant Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chydraddoldeb corfforaethol.<br>• Cyflwynwyd 13 sesiwn ymwybyddiaeth o droseddau casineb ar draws gwasanaethau amrywiol y cyngor a phartneriaid allweddol megis yr heddlu, y sector iechyd a'r trydydd sector. Daeth mwy na 180 o bobl i'r sesiynau hyn.<br>• Mae adnodd e-Ddysgu troseddau casineb i staff wedi cael ei ddatblygu.<br>• Mae Cydlyniad Cymunedol wedi'i wreiddio yn y Cynlluniau Cyflwyno Clystyrau Cymunedau'n Gyntaf a'r Cynlluniau Cynnwys y Gymuned.<br>• Cyflwynwyd sesiynau Ymwybyddiaeth o Wrth-fasnachu Pobl i staff a sefydlwyd Fforwm Gwrth-fasnachu Pobl Amlasiantaeth Rhanbarthol;<br>• Trefnwyd sesiwn Dweud wrth MAMA (Mesur Ymosodiadau Gwrth-Foslemaidd) ar gyfer aelodau ifanc o'r cymunedau Moslemaidd mewn partneriaeth â'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (TCIE).<br>• Mae Bwrdd CONTEST Rhanbarthol wedi cael ei sefydlu sydd wedi cynyddu rhannu gwybodaeth a chudd-ymchwil ar draws y rhanbarth.<br>• Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid i staff yn DASA.<br><br>Ystyriwyd gan Lywodraeth Cymru bod cyflwyniad y rhaglen Cydlyniad yn rhanbarth Bae'r Gorllewin yn un o'r perfformwyr gorau yng Nghymru yn 2012/13. |

**Amcan Cydraddoldeb – Diwylliant a Thwristiaeth**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 17** | | |
| **Annog mwy o gyfranogiad mewn diwylliant, hamdden a chwaraeon a gwella mynediad i wasanaethau/cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Lleoliadau Diwylliannol a Pharciau | | |
| Ehangu Gwasanaeth Addysg yr Archifau ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.<br>Bydd gwasanaeth addysg yr archifau'n rhoi cyfle i ysgolion ymweld â'r Gwasanaeth Archifau neu'n darparu sgyrsiau mewn ysgolion sy'n cysylltu â'r cwricwlwm. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Datblygu, rhoi ar waith a hyrwyddo prosiect mewn llyfrgelloedd i gyflwyno neu wella sgiliau cyfrifiadurol pobl dros 50 oed. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Sicrhau bod holl staff y llyfrgelloedd wedi cael eu hyfforddi/wedi mynd ar gyrsiau gloywi i ddefnyddio'r dolenni clyw. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Caffael cymhorthion cyfrifiadurol nam ar y golwg ychwanegol/gwell a'u rhoi ar waith mewn llyfrgelloedd. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Trefnu amrywiaeth o sgyrsiau amgueddfa sy'n mynd â'r amgueddfa i bobl hŷn. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Annog mwy o ymwelwyr 14-18 oed i ymweld ag Oriel Gelf Glynn Vivian trwy | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:** |

| | | |
|---|---|---|
| greu grŵp ffocws pobl ifanc a phrosiect dysgu sydd yn yr arfaeth mewn cydweithrediad â Tate fel un o'r partneriaid rhanbarthol. | | Dewiswyd Oriel Gelf Glynn Vivian i fod yn rhan o gynllun ledled y DU, fel rhan o'r rhwydwaith Plus Tate, i helpu pobl ifanc i gysylltu a rhyngweithio ag orielau celf, mewn cyfres o raglenni, gweithdai, prosiectau a digwyddiadau. Rhoddwyd y dasg i holl bartneriaid Plus Tate o sefydlu prosiect i gysylltu â phobl ifanc 14-21 oed.<br><br>Fe'n sbardunwyd gan hyn i sefydlu Prosiect Pobl Ifanc Glynn Vivian. Amcanion y prosiect oedd gweithio gyda phobl ifanc 14-19 oed i'w cynnwys yn rhaglen yr oriel a'r gymuned leol.<br><br>Gosododd y bobl ifanc dasg iddynt eu hunain o gynnwys pobl ifanc eraill (14-19) mewn digwyddiad neu weithgaredd. Bathodd y grŵp o bobl ifanc 14-19 oed yr enw 'Crash' iddynt eu hunain ac aethant ati i drefnu cystadleuaeth 'Brwydr y Bandiau' yn y YMCA. Cafodd y digwyddiad ei drefnu a'i gynnal gan y grŵp mewn ychydig dros bythefnos yn unig. Ymwelodd y grŵp â mannau a phrosiectau celf ym Mryste ac Abertawe, gan greu ffilm ddogfen am y broses, trefnu digwyddiadau galw heibio yn y ddinas a chynhyrchu dau fideo hyrwyddol ar gyfer y bandiau Alterium a The Fallen Empire.<br><br>Mae'r grŵp yn cwrdd bob nos Fercher ac yn ddiweddar rhoddwyd y dasg iddo o drefnu digwyddiadau i recriwtio aelodau newydd trwy'u cynnwys yn rhaglen yr oriel. Yn ddiweddar mae tîm Crash wedi ymuno â 'Film Club', elusen addysg sy'n ceisio trawsnewid bywydau pobl ifanc trwy ffilm.<br><br>Ym mis Hydref ar gyfer Nos Galan Gaeaf, dangosodd tîm Crash y ffilm 'Dark Shadows' gan Tim Burton ac ers hynny, maent wedi dechrau dewis ffilmiau i'w sgrinio ar nos Fercher olaf pob mis trwy gydol 2013 fel rhan o'u rhaglen *'12 ffilm i'w gwylio cyn i chi* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *heneiddio'.*<br><br>Lluniodd y grŵp gynnig am brosiect barddoniaeth ieuenctid newydd a drefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru ac a ariannwyd gan SEFYDLIAD CLORE DUFFIELD. O fis Tachwedd i fis Ionawr, bydd y grŵp yn gweithio gyda'r awdur a'r bardd Patrick Jones mewn cyfres o weithdai a fydd yn archwilio barddoniaeth lafar, rap ac ychydig o waith ysgrifennu gorau Cymru.<br><br>Yn ei hanfod, ein nod yw rhoi pobl ifanc wrth wraidd ein gwaith mewn ffordd newydd. Ein bwriad yw symbylu creadigedd a datblygu partneriaethau newydd rhwng yr oriel ac asiantaethau allweddol gan weithio gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc o Abertawe a'r cylch, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau a gwasanaethau plant. Rydym yn cydnabod yr effaith y gall y celfyddydau ei chael ar fywydau pobl ifanc, gan eu helpu i fod yn aelodau iach, diogel, hapus a chadarnhaol o gymunedau bywiog a datblygu eu hyder, eu galluoedd a'u sgiliau. |
| Gwella'r wybodaeth ar y we am fynediad i barciau er mwyn rhoi gwybod ymlaen llaw i ddefnyddwyr posib am y parciau sy'n hygyrch i bobl anabl a lleoliad y mynedfeydd. | 2016 Mawrth | **Ar waith:**<br>Mae'r Gwasanaeth Parciau wedi cyflwyno gwybodaeth gychwynnol am fynediad i'r Adran Farchnata i'w lanlwytho i'r we. Mae hyn wedi arwain at y prif barciau'n darparu rhywfaint o wybodaeth am fynediad. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yr wybodaeth hon yn eithaf cyfyngedig ac na fyddai'n helpu pobl anabl i wybod pa mor hygyrch yw'r parc ar y tu mewn.<br>Mae gwybodaeth am fynediad wedi cael ei hychwanegu at we-dudalennau rhai parciau (dim pob un) ond mae hon yn canolbwyntio ar fynedfeydd o hyd ac nid yw'n sôn am hygyrchedd yn y parciau eu hunain. Mae angen mwy o wybodaeth a dyna'r rheswm dros newid y dyddiad cau. Caiff hyn ei adolygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu'r opsiwn i ychwanegu gwybodaeth am fynediad ar arwyddion parciau a fyddai'n nodi'r llwybrau hygyrch. | 2016 Mawrth | **Ar waith:**<br>Rydym yn trafod y posibilrwydd o ychwanegu symbolau at arwyddion ynglŷn â mynediad. Efallai bydd rhaid i'r rhain fod yn sticeri i arbed costau. Rydym wrthi'n ceisio arweiniad ar arwyddion/pictogramau priodol y gellid eu harddangos ger gatiau parciau unigol er mwyn hysbysu defnyddwyr cadeiriau olwyn am addasrwydd mynediad – gwaith parhaus yw hwn a dyna'r rheswm dros newid y dyddiad cau. |
| Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden | | |
| I gyflawni'r Marc Enfys ar draws yr Adran Hamdden | Mawrth 2013 | **Ni ellir cyflawni hyn mwyach:**<br>Mae'r Ganolfan Ragoriaeth LGBT wedi cau ac felly mae'r Marc Enfys hefyd wedi darfod. Fodd bynnag, mae ein hymrwymiad i sicrhau bod ein lleoliadau'n hygyrch i'r gymuned LGBT yn parhau fel gyda'n gwaith blaenorol a pharhaus yn hyn o beth.<br>Caiff y cam gweithredu hwn ei ddileu. |
| Adolygu'r dichonolrwydd a'r dewisiadau i ehangu'r rhaglen weithgareddau i fenywod yn unig mewn canolfannau hamdden. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Datblygu cyfleoedd i bobl anabl gyfranogi, gwirfoddoli a hyfforddi mewn chwaraeon a darparu cefnogaeth ar gyfer clybiau anabledd presennol | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Mae Gwobr Rhuban Achrediad INSPORT a gydnabyddir yn genedlaethol wedi'i chwblhau ac mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi gofyn i ni wneud cais am achrediad efydd ym mis Mehefin 2015.<br><br>Yn y cyfamser rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth ennill arian gan yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid i benodi (mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe) swyddog "Dyfodol Cynhwysol" sydd â chylch gorchwyl i adeiladu ar sylfaen a osodwyd gan |

| | | |
|---|---|---|
| | | bencampwriaeth athletau diweddar yr IPC trwy raglenni arweinyddiaeth a gwirfoddoli. |
| Annog a chefnogi clybiau chwaraeon prif ffrwd i integreiddio pobl anabl trwy lwybrau'r Corff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol. | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Yn ogystal â'r rhaglenni uchod, rydym wedi targedu nifer o glybiau allweddol yn Abertawe i ennill achrediad gan INSPORT eu hunain gyda chymorth ein swyddog chwaraeon anabledd. Mae 7 yn aros am achrediad ar hyn o bryd, gyda 3 ychwanegol wedi'u cynllunio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.<br><br>Rydym hefyd yn cefnogi partneriaid cyfleuster (yr LC a Phrifysgol Abertawe) i ennill fersiwn gyfleuster Gwobr Ruban INSPORT. |
| Adolygu'r dewisiadau caeau chwaraeon i ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer pêl-droed fach. | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Mae prosiect Parc Cwmbwrla a grybwyllwyd yn adolygiad y llynedd yn parhau o hyd; fodd bynnag, mae hwn yn debygol o ddarparu caeau hŷn gan y bydd y 4 ystafell newid yn caniatáu am y nifer mwyaf posib o ddefnyddwyr. Gallai hyn ryddhau lle amgen rhywle arall wrth i gemau gael eu hadleoli i Gwmbwrla a gallai alluogi i gaeau bach newydd gael eu datblygu yn y safleoedd hyn.<br><br>Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu caeau bach lleol mewn partneriaeth â'r gynghrair. |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ar ôl ysgol (allgyrsiol) | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Mae adolygiad o'r Gwasanaeth Pobl Ifanc wedi cael ei gwblhau o ran newidiadau i strwythur a dulliau cyflwyno arfaethedig. Bydd y broses newydd yn dechrau o ddifrif ar ddechrau tymor mis Medi 2013.<br><br>Derbyniwyd canlyniadau arolwg chwaraeon ysgol cenedlaethol Chwaraeon Cymru ym mis Tachwedd 2013 ac mae gan Abertawe |

| | | |
|---|---|---|
| | | 3ydd lefel uchaf targed cenedlaethol allweddol Chwaraeon Cymru "Gwirioni ar Chwaraeon" yng Nghymru gyfan. |
| Cymerwch gamau i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau ymhellach mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol trwy ddatblygu cyfleoedd Campau'r Ddraig a 5x60, ymgynghori â merched oed ysgol am y gweithgareddau corfforol y maent yn eu hoffi a gweithio gyda chlybiau chwaraeon i annog cyfranogiad ôl-16. | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Fodd bynnag, mae bwlch o hyd rhwng cyfranogiad bechgyn a merched - 46.6% bechgyn, 40.4% merched - yn y ffigur "Wedi Gwirioni ar Chwaraeon" allweddol hwn, sef bwlch o 6%. Rydym yn uwch na blwch cyfartalog Cymru, sef 9%, ond rydym yn gweithio o hyd i leihau'r anghydraddoldeb ymhellach.<br><br>O ganlyniad, rydym yn cymryd rhan mewn rhaglen ranbarthol o'r enw "Ni Merched" sy'n cael ei harwain gan Gemau Stryd Cymru a'i llywio yn Abertawe. Mae'r rhaglen yn cynnwys cynnig sylweddol i Chwaraeon Cymru fel rhan o'u cronfa "Galw am Weithredu" sy'n seiliedig ar dystiolaeth o anghydraddoldeb. Caiff canlyniad y cynnig hwn ei hysbysu ym mis Ionawr 2015.<br><br>Rydym hefyd yn targedu gweithgareddau i ferched yn unig fel rhan o'n rhaglen Chwaraeon Stryd Abertawe ers tymor hydref 2014. |
| Ym mhob lleoliad | | |
| Adolygu'r polisïau mynediad i ofalwyr ar draws yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth er cysondeb a thegwch. Ar ôl ei gwblhau, sicrhau bod polisïau'n cael eu hyrwyddo i | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd ein cynllun Ac Un ei lansio ar 29 Medi 2013. Roedd ymgynghori â grwpiau anabledd yn allweddol i ddatblygu cynllun |

| | | |
|---|---|---|
| sicrhau ymwybyddiaeth. | | ymarferol ar gyfer ei gwsmeriaid targed. Mae'r cynllun yn gweithio'n dda mewn safleoedd sy'n cymryd rhan, a'r theatr yw'r lleoliad sy'n denu'r rhan fwyaf o ymwelwyr. Yn yr 8 mis ers lansio'r cynllun, mae tua 2,100 o aelodau wedi ymuno ag ef. Disgwylir adolygiad 12 mis ym mis Hydref 2014. |
| Hysbysu cwsmeriaid am ymrwymiad yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth i bolisi'r cyngor ar gyfer bwydo ar y fron trwy sicrhau bod logo 'llaeth y fam' yn cael ei ychwanegu at we-dudalennau a bod sticeri/posteri mewn cyfleusterau. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae pob lleoliad wedi adrodd ei fod wedi ymrwymo i'r cynllun ac mae ein gwefannau'n hyrwyddo cydymffurfiad. |
| Adolygu darpariaeth y mannau newid babanod ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ar sail yr wybodaeth a dderbyniwyd gan y lleoliadau a ymatebodd, mae gan ddwy ran o dair (19) ohonynt gyfleusterau newid babanod e.e. canolfannau hamdden, llyfrgelloedd. Mae'r traean o leoliadau (10) sydd heb y rhain (h.y. llyfrgelloedd) yn rhy fach i'w darparu neu ni fuont erioed wedi meddu arnynt. O'r 10 hyn, un lleoliad yn unig a gafodd sylwadau am ddiffyg darpariaeth. O ystyried y pwysau ariannol sydd ar y cyngor, nid oes unrhyw gynlluniau i'w gosod yn y dyfodol. |
| Cefnogi, targedu a darparu digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithdai Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Gwella cyfathrebu â sefydliadau BME am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal fel bod cymunedau'n ymwybodol o'r | Mawrth 2016 | **Ar waith:**<br>Er nad ydym wedi gwneud rhagor o gynnydd hyd yma, byddwn yn cydgysylltu â'r Fforwm BME i symud ymlaen â hyn ac annog |

| | | |
|---|---|---|
| gwasanaethau a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth. | | grwpiau ac unigolion BME i gofrestru i dderbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau ar www.mwynhauabertawe.com, sy'n esbonio'r newid i'r dyddiad cau. |
| Lle bo modd, dylid cyflwyno 'byrddau croeso' mewn gwahanol ieithoedd mewn lleoliadau diwylliant a thwristiaeth. | Mawrth 2016 | **Ni ellir cyflawni hyn mwyach:**<br>Er nad oes modd cyflawni'r cam gweithredu penodol hwn mwyach oherwydd pwysau ariannol, rydym wedi ymrwymo i gydgysylltu â'r Fforwm BME yn uniongyrchol i liniaru unrhyw effaith bosib.<br>Caiff y cam gweithredu hwn ei ddileu. |
| Sicrhau bod gwasanaethau a digwyddiadau diwylliant a thwristiaeth yn ymwybodol o arferion diwylliannol/crefyddol a'u bod yn gwneud addasiadau rhesymol i ymateb i'r rhain, lle bo modd. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Calendr o wyliau/digwyddiadau diwylliannol a chrefyddol wedi'i ddosbarthu ym mis Rhagfyr 2013 fel y gall gwasanaethau nodi gwrthdrawiadau posib.<br><br>Mae Pwll Cenedlaethol Cymru'n ystyriol o'r materion sy'n gysylltiedig â Ramadan ac yn gohirio gwersi nofio gan y bydd y rhai sy'n dod yn ymprydio a gallant fod yn rhy wan i gymryd rhan. Bydd y gwersi'n ailddechrau ar ôl Ramadan.<br><br>Mae Neuadd Brangwyn yn cefnogi'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn caniatáu i'r neuadd gael ei llogi am ddim ar gyfer y dathliadau. |
| Cyflawni'r Marc Enfys ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth perthnasol eraill | Mawrth 2014 | **Ni ellir cyflawni hyn mwyach:**<br>Mae'r Ganolfan Ragoriaeth LGBT wedi dod i ben ac felly mae'r Marc Enfys hefyd wedi darfod.<br>Fodd bynnag, mae ein hymrwymiad i sicrhau bod ein lleoliadau'n hygyrch i'r gymuned LGBT yn parhau.<br>Caiff y cam gweithredu hwn ei ddileu. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Gwasanaethau Cymdeithasol**

| **Amcan Cydraddoldeb 18** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd yr holl weithgareddau cynllunio a chomisiynu** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol fel modd i sicrhau bod pobl ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys yn gallu cael mynediad i wasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion diwylliannol ac eraill. | Rhagfyr 2012 ac yn parhau | **Ar waith:**<br>Mae nifer y bobl sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol wedi parhau i gynyddu, gyda gwybodaeth yn cael ei chyfleu trwy grŵp ehangach o staff gan gynnwys gofal yn y cartref a staff derbyn. |
| Adolygu'r cynlluniau comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ar draws pob grŵp cleientiaid: Pobl Hŷn, Anableddau Dysgu, Oedolion ag Anabledd Corfforol/Nam Synhwyraidd, Iechyd Meddwl a Gofalwyr. | Rhagfyr 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Adolygwyd cynlluniau comisiynu - 2014<br>Cydgynhyrchiad wedi'i wneud yn rhan o brosesau trawsnewid.<br>Mae comisiynu'n parhau i fod yn broses gylchol gan adlewyrchu anghenion a dyheadau newidiol y boblogaeth. |
| Fel rhan o adolygu'r ffurflen Asesu Unedig, ymchwilio i gasglu gwybodaeth am ystod ehangach o nodweddion gwarchodedig. | Rhagfyr 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae asesu unedig wedi cael ei adolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru); caiff data ei gasglu yn unol â'r Fframwaith Canlyniadau. |
| Parhau â'r Rhaglen Strategol Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion er mwyn cyflwyno gwasanaethau mwy personol sydd wedi'u hanelu at ddinasyddion. | Parhaus | **Ar waith:**<br>Mae'r broses o drawsnewid/rhoi ar waith yn parhau, Gwasanaethau i Oedolion yn cael eu hailstrwythuro yn unol â'r Ddeddf GCLl.<br>Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu canlyniadau gwell, cefnogaeth/gofal sy'n canolbwyntio ar y person a gwasanaethau arbenigol. |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal (ac ymchwilio i'r posibilrwydd o estyn) rhannau o wefannau Bywydau Abertawe a Phobl Abertawe ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. | Rhagfyr 2013 (adolygiad) | **Wedi'i gwblhau** |
| Cyflwyno gwefan hollgynhwysfawr i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc | Hydref 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Cyflawni asesiadau gofalwyr yn y Gwasanaeth Anableddau Plant | Rhagfyr 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae'r Tîm Anableddau Plant wedi cael ei hyfforddi'n llwyr a'i gefnogi i gynnal asesiadau arbenigol o ofalwyr. |
| Datblygu Strategaeth Gofalwyr Ifanc | Ebrill 2014 | **Wedi'i gwblhau** |
| Datblygu'r gwaith magu plant corfforaethol ymhellach trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig | Mis Hydref bob blwyddyn | **Ar waith:**<br>Caiff hyfforddiant dynodedig ei gyflwyno'n rheolaidd i rieni corfforaethol ac mae cylch gorchwyl y bwrdd wedi cael ei ddiwygio. |
| Sefydlu proses drawsnewid amlasiantaeth rhwng gwasanaethau anableddau plant ac oedolion | Haf 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhau Protocol Trosglwyddo i gefnogi gwaith amlasiantaeth. Mae gwaith ychwanegol yn parhau i ystyried datblygu Tîm Trosglwyddo ar y Cyd i gefnogi plant mewn angen wrth gyrraedd oedolaeth. |
| Cynnwys pobl ifanc yn y gwaith angenrheidiol o gyflwyno'r cynlluniau comisiynu | Haf 2014 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae adborth am gyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen bellach yn rhan ganolog o'r Uned Safon Gwasanaethau, a fydd mewn sefyllfa well i gysylltu â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau busnes gwasanaeth a strategaeth gomisiynu. |

| **Amcan Cydraddoldeb 19** | | |
|---|---|---|
| **Darparu lefel uchel o wybodaeth am gam-drin yn y cartref a'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| Agor gwasanaeth gwybodaeth a chyngor 'siop dan yr unto' yng nghanol dinas Abertawe. Bydd hwn yn darparu cefnogaeth yn y fan a'r lle i fenywod, dynion a phlant sy'n dioddef cam-drin yn y cartref. | Rhagfyr 2012 | **Ar waith:**<br>Oherwydd problemau adeileddol a gafwyd wrth adnewyddu'r adeilad, disgwylir iddi agor bellach erbyn diwedd 2014. |
| Trefnu digwyddiadau i gynyddu ymwybyddiaeth gan gynnwys Diwrnod y Rhuban Gwyn (Diwrnod Dileu Trais yn erbyn Menywod) a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Dyma ddau o'r digwyddiadau pennaf yng nghalendr y Fforwm Cam-drin yn y Cartref lle mae'r wybodaeth a roddir yn canolbwyntio ar wasanaethau un rhyw (menywod yn unig). | Ebrill 2013 ac yn barhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad yn llwyddiannus. Ar gyfer Diwrnod y Rhuban Gwyn, rhoddwyd 3 diwrnod o sylw iddo ym mhapur newydd lleol yr Evening Post, a ymdriniodd â cham-drin yn y cartref a thrais yn erbyn menywod ac roedd fan digwyddiadau cymunedol yng nghanol y ddinas. Ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Menywod cynhaliwyd digwyddiad dydd yn y Ganolfan Fenywod. Roedd y ddau ddigwyddiad ar gyfer gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaeth. |
| Mynd i ddigwyddiadau eraill megis Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd i gynyddu'r ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â cham-drin yn y cartref | Ebrill 2013 ac yn barhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Darparwyd taflenni a gwybodaeth i gyd-fynd â'r digwyddiad ar gyfer Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd. Roedd y stondinau'n boblogaidd iawn ymhlith myfyrwyr o golegau lleol a defnyddwyr gwasanaeth fel ei gilydd. |
| Sefydlu gwasanaeth cam-drin yn y cartref penodol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mewn partneriaeth â PEI a'r Grŵp Strategaeth Trais yn y Cartref. | Rhagfyr 2013 | **Wedi'i gwblhau** |

**Amcan Cydraddoldeb – Budd-daliadau**

| Amcan Cydraddoldeb 20 | | |
|---|---|---|
| **Bydd y Tîm Hawlio Budd-daliadau yn cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn budd-dal treth y cyngor 1.5% o lwyth achosion budd-dal treth y cyngor erbyn 31 Mawrth 2013 (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Cynllunio a gweithredu amrywiaeth o weithgareddau a mentrau i gyflawni'r targed, fel y'u disgrifir yn ein Strategaeth Hawlio. | Mawrth 2013 ac yn barhaus yn flynyddol | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Diddymwyd Budd-dal Treth y Cyngor ar 31 Mawrth 2013 fel rhan o raglen diwygio lles Llywodraeth y DU. Newidiodd ffocws y tîm yn 2013/14 i ddarparu cyngor a chefnogaeth i breswylwyr ar amrywiaeth o ddiwygiadau lles, yn benodol o ran y cymhorthdal ystafell sbâr, a adwaenir yn gyffredin fel y “Dreth Ystafell Wely”. Sefydlwyd canolfan gynghori dros dro yn y Ganolfan Gyswllt, wedi'i hwyluso gan y Tîm Hawlio a oedd yn cynnwys cymorthfeydd dyddiol a ddarperir gan wasanaethau oddi mewn y cyngor ac amrywiaeth o asiantaethau'r trydydd sector megis Age Cymru, Shelter, y Groes Goch, y Gwasanaeth Cyngor ar Arian ac Undeb Credyd LASA. Mae'r Tîm Hawlio bob amser wedi chwarae rhan sylweddol wrth gynorthwyo tenantiaid i hawlio Taliadau Tai Dewisol a dod o hyd i atebion tymor hwy i liniaru effaith y “Dreth Ystafell Wely” megis dod o hyd i waith a symud i lety llai. Bu'r tîm hefyd yn gweithio ar fenter newydd ar y cyd ag ymgynghorydd “Am Weithio” o ganolfan waith i gefnogi a chynghori tenantiaid i ddychwelyd i gyflogaeth. Parhaodd y tîm i weithio gyda sefydliadau megis y Cyreniaid, Cymdeithas Alzheimer, y gymuned Tsieineaidd, Ysgol Arbennig Pen-y-bryn, cymdeithasau Gwalia a Coastal Housing. Bu'r tîm hefyd yn gweithio'n ddiwyd i gynyddu ymwybyddiaeth a chynorthwyo preswylwyr i hawlio Gostyngiad Treth y Cyngor (a ddisodlodd Budd-dal Treth y Cyngor) gan gymryd cyfeiriadau e.e. gan y Tîm Treth y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyngor a'r Adran Tai yn ogystal â galwadau uniongyrchol gan drethdalwyr. Yn 2013/14 oherwydd gwaith y tîm, bu cynnydd o 1,225 yn nifer y rhai sy'n derbyn Gostyngiad Treth y Cyngor a bu cynnydd o 897 yn nifer y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai. |

**Amcanion Cydraddoldeb - Yr Amgylchedd a Diogelwch**

| **Amcan Cydraddoldeb 21** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad i balmentydd, ffyrdd a darpariaeth barcio er mwyn darparu mynediad gwell i bobl anabl a hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Rhoi'r Polisi Palmentydd i Bobl ar waith | Ebrill 2013 ac yn barhaus | **Ar waith:**<br>Polisi yn ei le - i'w adolygu yn 2014-15. |
| Gosod cyrbau isel i hwyluso mynediad lle bo angen | Parhaus | **Ar waith:**<br>Gosod cyrbau isel fesul achos. |
| Darparu croesfan i gerddwyr â chyfleusterau i bobl anabl. | 95% erbyn Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ar 31/3/2014 y ganran gyfan a fu'n bodloni'r meini prawf oedd 96.5%. |
| Ystyried materion anghydraddoldeb wrth ddylunio cynlluniau priffyrdd a thraffig. | Cynnwys y rhain wrth ddylunio pob prosiect. | **Ar waith:**<br>Mae gwella ymgynghori â grwpiau anabl wedi cael ei dargedu trwy gyflwyno cam newydd yn y broses datblygu dyluniadau. Mae'r fformat yn unol â'r protocol Palmentydd i Bobl a ddefnyddir fel y safon ar draws yr awdurdod.<br>Caiff prosiectau eu hasesu'n ffurfiol gan ddefnyddio'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb, gan ddarparu o ganlyniad fwy o barhad rhwng cynlluniau, cofnod manwl o fesurau a roddir ar waith ac ystyriaeth briodol o'r grwpiau perthnasol.<br>Caiff gweithdai ôl-gwblhau eu cyflwyno ar brosiectau perthnasol i |

| | | |
|---|---|---|
| | | wahodd sylwadau gan randdeiliaid allweddol er mwyn darparu gwelliannau parhaus. |
| Darparu hawlenni i ganiatáu i sefydliadau gofal a gofalwyr barcio mewn safleoedd parcio preswylwyr. | Parhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2014 cyflwynwyd 960 o hawlenni i ofalwyr gennym. |

| **Amcan Cydraddoldeb 22** | | |
|---|---|---|
| **Cludiant: Gwella mynediad i fysus cyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Lansio system REACT yr RNIB yn yr orsaf fysus ganolog i bobl â nam ar y golwg.<br>Cynnig, am flaendal a ddychwelir, ffobiau sy'n galluogi anfon negeseuon at ddefnyddwyr dall a'r rhai â nam ar y golwg.<br>Darparu cyfarwyddiadau defnydd dwyieithog mewn braille, ar CD sain ac mewn print bras.<br>Mae'r system yn rhoi negeseuon sain am y gwasanaethau a geir ym mhob bae gadael ac mae'n offeryn dod o hyd i'r ffordd ar y cyd â'r stribed cyffyrddol a geir trwy neuadd yr orsaf. | Hydref 2011 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae system REACT yr RNIB ar waith yn yr Orsaf Fysus a hefyd ar safleoedd yr ftr Metro ac ar gerbydau'r Metro eu hunain.<br>Mae mapiau braille wedi cael eu llunio ar gyfer yr orsaf fysus a'r orsaf drenau.<br>Fel rhan o'r gwaith i adnewyddu neuadd Gorsaf Reilffordd Abertawe yn 2013, ychwanegwyd nodweddion i gynorthwyo cwsmeriaid anabl megis arwyddion braille, cownteri is a chyfleuster Changing Places.<br>Mae llwybr cyffyrddol hefyd wedi'i ddarparu rhwng y fynedfa i'r orsaf reilffordd a'r prif safle bysus. |
| Datblygu rhaglen i ddarparu cyrbau uchel mewn safleoedd bysus i hwyluso mynediad i deithwyr â phroblemau symudedd.  Cwrdd â grwpiau anabledd i | Rhaglen ar waith erbyn 2015 | **Ar waith:**<br>Cytunwyd ar restr blaenoriaethu safleoedd bws i osod cyrbau uchel â grwpiau anabl ac fe'i rhoddwyd ar waith. Darparwyd cyrbau uchel hefyd ar safleoedd ar hyd Heol y Mwmblws a Heol Caerfyrddin. |

| | | |
|---|---|---|
| geisio'u barn ar flaenoriaethu.<br>Mae deddfwriaeth yn ei lle sy'n ei gwneud yn ofyniad i fysus fod yn hygyrch erbyn 2015. Bydd hyn yn cynyddu'r angen i'r cyngor ddarparu cyrbau uchel. | | Cynhelir gwaith i ddarparu cyrbau uchel ar safleoedd ar hyd Heol Gŵyr yn 2014. |

| **Amcan Cydraddoldeb 23** | | |
|---|---|---|
| **Gwella darpariaeth diogelwch cymunedol – a chanfyddiadau o fod yn ddiogel – ar draws cymunedau Abertawe** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Darparu CCTV sefydlog a theithiol<br><br><br><br><br>Darparu cyngor atal troseddu<br><br><br><br>Cyfathrebu cadarnhaol a thawelu meddyliau<br><br><br><br><br><br><br><br>Cynnwys cymunedau gan swyddogion | Parhaus | Ceir system CCTV gynhwysfawr sy'n goruchwylio canol y ddinas a mannau allweddol eraill sydd o les i'r gymuned gyffredinol.<br>Cynhelir adolygiad cyllidebol sylweddol yn 2014.<br><br>Darperir cyngor atal troseddu gan staff cymwys a phrofiadol pryd bynnag y gofynnir amdano.<br>Caiff egwyddorion “Secured by Design” eu hyrwyddo'n weithgar.<br><br>Mae nifer mawr o weithgareddau cynnwys y gymuned wedi'u cynnal ar draws yr ardal, gan ddefnyddio lleoliadau sefydlog a cherbydau. Mae “man cymorth” ac<br>“ardal ollwng” yr economi nos wedi cael eu hehangu a'u prif-ffrydio. Caiff y rhain eu hyrwyddo fel arfer gorau gan y Swyddfa Gartref oherwydd cyfranogiad Abertawe ym menter Ardaloedd Gweithredu Lleol ynghylch Alcohol.<br><br>Cynhelir cyfathrebu cadarnhaol yn y cyfryngau i hybu hyder y cyhoedd a lleihau ofn troseddu.<br>Cynhaliwyd dwy fenter gyfryngol sylweddol: “Mae Un Dyrnod yn Difetha Bywydau” a “Drinkaware”. |

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | | Mae lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau'n flaenoriaeth Abertawe Mwy Diogel. Caiff dau aelod o staff arbenigol rhan-amser eu cyflogi a'u rhannu â Chastell-nedd Port Talbot. Caiff ffigurau rheoli misol eu cynhyrchu a'u darparu i aelodau ward. |

| **Amcan Cydraddoldeb 24 – addaswyd ar gyfer 2013** | | |
|---|---|---|
| **Llunio Strategaeth Troseddau Casineb ar draws y cyngor mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Cydgysylltu â grwpiau anableddau lleol i gofnodi eu profiadau o gasineb ac aflonyddu a chynnwys yr wybodaeth a gasglwyd mewn adroddiad. | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Cynnwys manylion yr ymgyrch a gwybodaeth am ddulliau adrodd ar wefannau Heddlu De Cymru a DASA | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Cynnal o leiaf 4 sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth gyda grwpiau cymunedol yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymgyrch. | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau** |
| Drafftio Strategaeth Troseddau Casineb | Ebrill 2015 | **Ar waith:**<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb - Fframwaith Gweithredu'. O ganlyniad, caiff gwaith ei wneud gyda phartneriaid er mwyn llunio Strategaeth Troseddau Casineb leol i Abertawe, gan ystyried y fframwaith cenedlaethol. |

| **Amcanion cydraddoldeb 25** | | |
|---|---|---|
| **Gweithio mewn partneriaeth yn lleol ar fentrau hybu iechyd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r holl gymunedau** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| Amlinellu cylch gorchwyl y Grŵp Gweithredu Tybaco | Ionawr 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Datblygu Cynllun Gweithredu Tybaco ar gyfer Abertawe a fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd a nodwyd mewn asesiadau anghenion lleol ac ymarferion mapio. | Cynllun wedi'i ddatblygu erbyn mis Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cytunwyd ar Gynllun Gweithredu Tybaco hyd fis Mawrth 2014, a chaiff adroddiadau cynnydd eu cyflwyno i'r Bwrdd Dinas Iach bob chwe mis. Caiff adroddiad terfynol y cynllun hwn ei gyflwyno yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Mehefin 2014. |
| Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno trwy feicio neu gerdded yn ardaloedd y prosiect Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau. | I'w bennu pan fydd swm yr arian yn hysbys ar gyfer 2012/13 | **Ar waith:**<br>Caiff cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ei gyflwyno bob blwyddyn. Yn 2013/14 cynhaliwyd cynllun yn Nhreforys. Ni allwn fonitro llwyddiant y cynllun oherwydd prinder adnoddau. Caiff ysgolion eu hannog i gynyddu nifer y plant sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol. Rydym wedi gofyn i ysgolion gadarnhau faint o blant sydd wedi newid eu dull o gludiant i'r ysgol o ganlyniad i'r cynlluniau, ond nid oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny.<br><br>Rydym yn ceisio ailddyrannu adnoddau o fewn y Tîm Diogelwch Ffyrdd i gwblhau arolygon teithio syml gydag ysgolion sydd wedi rhoi Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ar waith. |

| **Amcan Cydraddoldeb 26** | | |
|---|---|---|
| **Gwella prosesau a gweithdrefnau mewnol yn y gwasanaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd Abertawe er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb nid yn unig yn cael eu cynnwys ond bod y canlyniadau sy'n dilyn wedi'u seilio ar yr wybodaeth berthnasol** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Rheoli Adeiladu | | |
| Parhau ag arolygon ymgynghori â chwsmeriaid gan gynnwys holl | Cyflwyno arolwg parhaus ar ôl | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:** |

| | | |
|---|---|---|
| ddefnyddwyr y gwasanaeth. | cwblhau'r prosiect. | Arolwg yn parhau. |
| Gwirio pob lefel o effaith ar wahanol grwpiau yn y gymdeithas, gan gynnwys unrhyw lefel andwyol o orfodi | Bob 6 mis | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Canlyniadau wedi'u dadansoddi. Dim tystiolaeth i awgrymu unrhyw effaith andwyol neu lefelau gorfodi mewn unrhyw grŵp. |
| Dadansoddi data cwynion/sylwadau | Yn barhaus ar ôl ei dderbyn | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Caiff yr holl ganlyniadau eu dadansoddi'n unigol. Ymateb neu weithredu lle bo angen. |
| Cyhoeddi'r canlyniadau. | Ebrill 2012 ac yn barhaus (blynyddol) | **Wedi'i gwblhau** |
| Caiff yr holl wybodaeth, ffurflenni, taflenni etc eu darparu mewn unrhyw iaith/fformat os gofynnir am hyn. | Ar gael yn ôl y galw | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Dim ceisiadau hyd yma. |
| Hysbysebu GCChAPC/darparu cyfieithydd ar y pryd yn ôl yr angen. | Ar gael yn ôl y galw. | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Prosbectws ar gael ar gais. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau. |
| Claddedigaethau ac Amlosgiadau | | |
| Darparu trefniadau claddu/amlosgi yn unol â gofynion grwpiau ethnig a chrefyddol/cred yn Abertawe | Parhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ymateb cadarnhaol gan y gymuned Foslemaidd yn benodol, gydag un man cyswllt ar gyfer pob trefniad. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau. |
| Rheoli Gwastraff | | |
| Casgliadau gwastraff â chymorth i bobl anabl a hŷn. | Adolygu'n fisol. | **Ar waith:**<br>Parheir i ddarparu'r gwasanaeth hwn i bob preswylydd y mae angen cymorth arno gyda'i fagiau gwastraff. Rydym yn chwilio byth a |

| | | |
|---|---|---|
| | | beunydd am ffyrdd o'i wella ymhellach a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau am welliannau. |
| **Gwybodaeth ychwanegol a ddarperir:** *Siaradwyr iaith gymunedol* | *Adolygu'n fisol* | *Llunio taflenni ag arweiniad darluniadol.*<br><br>*Lluniwyd arweiniad ailgylchu yn yr iaith Fandarin*<br><br>*Ymweliadau wyneb yn wyneb i drafod casgliadau gwastraff ac eitemau i'w hailgylchu*<br><br>*Cynhelir gweithgaredd hyrwyddo yn yr Hafod y mis nesaf (Mehefin 2014) fel rhan o'r prosiect curo ar ddrysau.* |

**Amcan Cydraddoldeb – Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol (GAEC)**

| **Amcan Cydraddoldeb 27** | | |
|---|---|---|
| **Sicrhau recriwtio gweithlu amrywiol yn y GAEC** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Recriwtio – Sicrhau bod yr holl recriwtio yn y dyfodol yn y GAEC yn parhau i gael ei wneud yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan roi sylw penodol i'r rhaglen recriwtio prentisiaid. Datblygu cysylltiadau ymhellach â grwpiau/sefydliadau allanol i alluogi ymwybyddiaeth ehangach o'r fenter ac i gefnogi'r GAEC. Bydd parhad y rhaglen recriwtio prentisiaid yn dibynnu ar gymeradwyaeth gyllidebol yn y dyfodol. | Mawrth 2013 ac yn barhaus yn flynyddol | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Dechreuodd recriwtio prentisiaid GAEC ar gyfer 2014 ym mis Mawrth. Fel arfer hysbysebwyd y cyfleoedd yn y wasg leol, y ganolfan gwaith ac ar wefan Gyrfaoedd Cymru. Buom yn gweithio hefyd gyda'r Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu gan gwrdd ag ymgeiswyr posib trwy'r gweithdai adeiladu. Buom yn gweithio gyda'r mentrau Y Tu Hwnt i Frics a Morter a Gweithffyrdd.<br><br>Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Chynllun Prentisiaeth Rhanbarthol a Rennir De-orllewin Cymru. Mae hyn yn cynnwys prentisiaid a gyflogir gan y cynllun yn cwblhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | lleoliad gwaith tymor byr gyda GAEC. Byddant yn cael profiad gwerthfawr yn y gweithle a hefyd gwblhau'r unedau gofynnol yn unol â chymwysterau NVQ eu bod yn gweithio tuag atynt.<br><br>Ers mis Hydref 2013 rydym wedi cydgysylltu â'r prosiect COASTAL i gynnig lleoliadau (dros 13 wythnos) i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddo. |

**Amcan Cydraddoldeb – Caffael**

| **Amcan Cydraddoldeb 28** | | |
|---|---|---|
| **Cydymffurfio â'r rheoliad caffael a bennwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru)** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, byddwn yn:<br>• ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau sy'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol;<br>• ystyried a fyddai'n briodol i nodi amodau sy'n ymwneud ag ymgymryd â'r contract i helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol. | Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ystyr 'caffael cyhoeddus' yw prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau gan gyrff cyhoeddus penodol. Er mwyn sicrhau symudiad rhydd nwyddau a gwasanaethau, cyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd gyfres o gyfarwyddebau caffael cyhoeddus i ragnodi y dylid dyfarnu contractau'n deg heb wahaniaethu ar sail cenedligrwydd. Ei nod yw sicrhau cystadleuaeth deg, agored a thryloyw am gontractau cyhoeddus, trwy hysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (CSUE) a dilyn y gweithdrefnau manwl canlynol. Mae'r cyfarwyddebau hyn wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006 (fel y'u diwygiwyd), (y 'Rheoliadau Caffael') ac amrywiaeth o reoliadau eraill.<br>Mae'n rhaid i'r holl weithgarwch caffael a wneir gan y tîm caffael osgoi gwahaniaethu neu caiff y broses gaffael a dyfarniad y contract ar ôl hynny eu diddymu a byddai'r cyngor yn agored i heriau |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfreithiol.<br><br>Cynhelir asesiad risg cynaliadwy i nodi'r risgiau a defnyddio'r wybodaeth hon i gyfeirio'r ddogfen fanyleb yn y tendr.<br><br>Gofynnir am feini prawf gofynnol ar gyfer cydraddoldebau (yn benodol unrhyw doriadau) ar gyfer pob contract caffael yn y cam cyn-gymhwyso – mae'r wybodaeth hon yn sail i'r contract masnachol ac yn cael ei monitro ar hyd cyfnod y contract. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Cyfathrebu, Marchnata, Trosolwg a Chraffu**

| **Amcan Cydraddoldeb 29** | | |
|---|---|---|
| **Ymchwilio i addasiadau posib i ddyfeisiau amlswyddogaeth (llungopiwyr) mewn gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd megis llyfrgelloedd, ysgolion a swyddfeydd mewnol. Gallai addasiadau gynnwys gostwng y paneli rheoli i helpu defnyddwyr cadeiriau olwyn wrth lungopïo, sganio a chasglu dogfennau.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Ymchwilio i addasiadau gan gyflenwyr | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Ymgynghori â defnyddwyr dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Llunio tendr dyfeisiau amlswyddogaeth i gynnwys costau ac argaeledd addasiadau ar gyfer hygyrchedd | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Ar y cyd â chwsmeriaid dyfeisiau amlswyddogaeth, nodi a gosod dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion mynediad. | Yn barhaus o fis Mawrth 2013. | **Ar waith:**<br>Gosod dyfeisiau amlswyddogaeth o fis Mehefin 2013 gydag offer rheoli isel a sgriniau troi i fyny/i lawr i alluogi mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.<br>Gohirio amnewid dyfeisiau amlswyddogaeth llyfrgelloedd nes i'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwasanaeth Llyfrgelloedd benderfynu ar ateb cyfarpar a meddalwedd. |

| **Amcan Cydraddoldeb 30** | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu'n briodol i sicrhau bod modd i bobl â nam ar y golwg fwynhau Arwain Abertawe** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2014 |
| Adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl â nam ar y golwg | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Ymchwilio i sut mae awdurdodau lleol eraill yn darparu gwasanaethau i bobl â nam ar y golwg o ran eu papur bro. | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Ymchwilio i farn sefydliadau lleol perthnasol | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau** |
| Adolygu goblygiadau adnoddau'r adroddiad a datblygu cynllun gweithredu. | Hydref 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd hwn ei adolygu ym mis Chwefror 2014. Cost y tapiau sain ar hyn o bryd yw £900 y flwyddyn. Nid oes unrhyw oblygiadau adnoddau eraill o'r gwasanaeth. |
| Cymeradwyo'r cynllun gweithredu | Rhagfyr 2012 ac yn barhaus (adolygu'n rheolaidd) | **Ar waith:**<br>Er nad oes unrhyw gynnig i roi terfyn ar dapiau sain ar hyn o bryd, cysylltwyd â'r tri defnyddiwr presennol i ofyn a oeddent yn dymuno parhau â'r gwasanaeth a chafwyd ymateb gan ddau ohonynt. Gwnaeth un cais i'r gwasanaeth barhau, gofynnodd y llall iddo barhau ond dywedodd y byddai'n deall petai'n dod i ben.<br>Mae dewisiadau posib i'w hystyried yn cynnwys cadw'r sefyllfa bresennol; darparwr arall; rhoi terfyn ar y gwasanaeth. |
| Rhoi cynllun gweithredu ar waith, gan gynnal adolygiadau blynyddol a gwneud | O fis Ebrill 2014 | **Ar waith:**<br>Diwygio'r cynllun gweithredu yn 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| addasiadau lle bo hynny'n briodol. | | |

## Atodiad 2

# Gwybodaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant

### Data cyflogaeth o fis Rhagfyr 2014

Oherwydd y gwaith parhaus i gyflwyno'r system fentora newydd, ni fu modd i ni adrodd am ddata o fis Mawrth eleni. Caiff ei gynnwys fel un o ofynion y system o 2015.

Lle gallai gwerthoedd isod alluogi adnabod aelodau unigol o staff, mae ffigurau wedi cael eu disodli gan *.

| Swyddi | Nifer y bobl a gyflogwyd gan yr awdurdod ar 31 Mawrth 2013 (swyddi) |
|---|---|
| **Oedran** | **15,635** |
| 16-24 | 1029 |
| 25-39 | 4788 |
| 40-49 | 4676 |
| 50-59 | 3882 |
| 60+ | 1260 |
| 55-59 | 928 |

| **Rhyw** | **15,635** |
|---|---|
| Gwryw | 4379 |
| Benyw | 11256 |

| **Anabledd** | |
|---|---|
| Anabl | 88 |
| Ddim yn anabl/Dewis peidio â dweud | 15,547 |

### Canran y gweithwyr, gan gynnwys athrawon a staff ysgolion sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod lleol, yn wirfoddol neu'n anwirfoddol (Rhif DP CHR/001)

| **Nifer y Rhai sy'n Gadael** | |
|---|---|
| Nifer y rhai sy'n gadael (cyfrif pennau) | 727 |
| Nifer y staff (cyfrif pennau) | 11,195 |
| Canran | 6.5 |

**Ethnigrwydd**

| **Grŵp Ethnig** | |
|---|---|
| Gwyn - Prydeinig | 2,031 |
| Gwyn - Unrhyw un arall | 98 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – gan gynnwys Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd neu unrhyw un arall | 21 |
| Du neu Ddu Prydeinig – gan gynnwys Affricanaidd, Caribïaidd neu unrhyw arall | 14 |
| Cymysg | * |
| Grŵp Ethnig Arall | * |
| DIM | 13,464 |
| **Cyfanswm** | **15,635** |

**Crefydd**

| **Crefydd neu gred** | **995** |
|---|---|
| Dim crefydd | 174 |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 652 |
| Unrhyw grefydd arall (gan gynnwys Bwdhaeth, Iddewiaeth ac Islam) | 133 |
| Dewis peidio â dweud | 36 |

**Gwybodaeth hyfforddiant a gasglwyd rhwng 2013 a 14**

**Yn ôl rhyw:**

| | |
|---|---|
| Gwryw | 401 |
| Benyw | 708 |

**Yn ôl oedran:**

| | |
|---|---|
| 24 oed ac iau | 81 |
| 25 – 39 | 402 |
| 40 – 49 | 346 |
| 50 – 59 | 250 |
| 60+ | 22 |
| Heb ei nodi | 9 |

**Yn ôl cenedligrwydd:**

| | |
|---|---|
| Prydeinig | 1,090 |
| Ddim yn Brydeinig | 17 |
| Ffoadur | 0 |
| Heb ei nodi | * |

**Yn ôl grŵp ethnig:**

| | |
|---|---|
| Gwyn | 1078 |
| Arall (e.e. Asiaidd, Du, Tsieineaidd) | 27 |
| Heb ei nodi | 5 |

**Yn ôl crefydd:**

| | |
|---|---|
| Cristion | 568 |
| Arall (e.e. Iddew, Mwslim, Bwdhydd) | 28 |
| Ddim yn gwybod | * |
| Dim | 470 |
| Heb ei nodi | 40 |

**Yn ôl anabledd:**

| | |
|---|---|
| Salwch, problem iechyd neu anabledd tymor hir | 67 |

## Presenoldeb Staff ac Aelodau ar Gyrsiau Hyfforddi Cydraddoldebau (2010-14)

### Hyfforddiant wyneb yn wyneb

| Staff | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chydraddoldebau | 84 | 61 | 80 | 99 | 55 | **379** |
| Cydraddoldebau 2010 | | | | 50 | | **50** |
| Gwasanaeth Adeiladu Corfforaethol Cydraddoldebau 2010 | | | 567 | | | **567** |
| Swyddogion Gorfodi | | | | | 32 | **32** |
| Rheolwyr Gofal y Gwasanaethau Cymdeithasol | | 81 | 116 | | | **197** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | | **1,225** |

| Rheolwyr | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tîm Arweinyddiaeth - Deddf Cydraddoldeb 2010 – cyflwynwyd gan CLlLC | | 19 | | | | **19** |
| Modiwl o fewn Cwrs Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth | | | 52 | 54 | 48 | **154** |
| Cyflwyniad i reolwyr y 3ydd haen gan gydweithwyr yn CLlLC | | 127 | | | | **127** |
| Cyflwyniad i reolwyr y 3ydd haen ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 | | 135 | | | | **135** |
| **Cyfanswm** | | | | | | **435** |

### Hyfforddiant e-Ddysgu

| Presenoldeb ar Gyrsiau e-Ddysgu | Hyd yma |
|---|---|
| Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 64 |
| Arweiniad i Asesu Effaith Cydraddoldeb | 31 |